Gall unrhyw un sydd ar Gofrestr Etholiadol Bro Morgannwg neu sy'n drethdalwr neu'n drethdalwr annomestig i Gyngor Bro Morgannwg gyflwyno, ymlaen llaw, gwestiwn yng nghyfarfodydd y Cyngor Llawn yn unol â gweithdrefn gyhoeddus y Cyngor. Mae manylion y weithdrefn i'w gweld ar wefan y Cyngor:

[https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our\\_council/Council-Structure/Public-Participation-at-Council-Meetings.aspx](https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our_council/Council-Structure/Public-Participation-at-Council-Meetings.aspx)

Caiff unrhyw Gynghorydd ofyn unrhyw gwestiwn heb rybudd i'r Arweinydd, yr Aelod Cabinet perthnasol neu Gadeirydd Pwyllgor sy'n deillio'n uniongyrchol o adroddiad gan y Cabinet neu'r Pwyllgor ar Agenda'r Cyngor Llawn.

Os yw Cynghorydd yn dymuno gofyn cwestiwn mewn perthynas ag unrhyw fater y mae gan y Cyngor Llawn bwerau neu ddyletswyddau sy'n effeithio ar Fro Morgannwg, yna rhaid iddo gyflwyno ei gwestiwn o leiaf wythnos cyn cyfarfod y Cyngor Llawn.

Nodir y rhain yn adran pedwar Cyfansoddiad y Cyngor:

[https://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/\\_Committee%20Reports/Committee%20Information/Constitution/June-2018/Section-4.pdf](https://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/_Committee%20Reports/Committee%20Information/Constitution/June-2018/Section-4.pdf)

### Aelodau Cyfetholedig

Yn ogystal â Chynghorwyr (sy'n cael eu hethol i'r Cyngor gan y cyhoedd), efallai y bydd gan rai Pwyllgorau aelodau Cyfetholedig hefyd.

Mae'r rhain yn aelodau o'r cyhoedd (aelodau lleig) a benodir naill ai gan y Cyngor Llawn neu oherwydd deddfwriaeth berthnasol sy'n llywodraethu'r Pwyllgor penodol.

Gall aelodau cyfetholedig hefyd fod â sedd ar Bwyllgor i gynrychioli sefydliad allanol penodol.

Bydd gan rai aelodau Cyfetholedig hawliau pleidleisio ar Bwyllgor lle na fydd gan eraill a bydd y cylch gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor wedi'i nodi yn yr achos hwn.



## 2.8 Y 'Cabinet' Gweithredol

### Gwneud Penderfyniadau. Llawlyfr Ymgeiswyr ac Aelodau Etholedig 2022

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn cael ei adnabod yn fwy cyffredin fel y Cabinet.

Mae'r Cabinet yn cynnwys Arweinydd y Cyngor ac o leiaf ddau, ond dim mwy na naw, o Gyngorwyr eraill, a benodir gan yr Arweinydd.

Mae'r Arweinydd yn penderfynu ar faint ac aelodaeth y Cabinet a rôl a chyfrifoldebau pob Aelod Cabinet, gan gynnwys pa Aelod Cabinet fydd yn gweithredu fel Dirprwy Arweinydd yn absenoldeb yr Arweinydd.

Penodir y Cabinet i gyflawni holl swyddogaethau'r Cyngor nad ydynt yn gyfrifoldeb i unrhyw ran arall o'r cyngor ynghyd â gwneud penderfyniadau o fewn y fframwaith cyllideb a pholisi a bennwyd gan y Cyngor.

Cynhelir Cyfarfodydd y Cabinet bob pythefnos ar hyn o bryd.


Mae'r Cabinet yn gweithio i Flaenraglen Waith (gweler tudalen 2.11) sy'n nodi adroddiadau y mae pob Aelod Cabinet yn disgwyl eu gweld yn y gwahanol gyfarfodydd Cabinet ar draws y flwyddyn ddinesig.

Cyn cynnal cyfarfod o'r Cabinet, anfonir yr agenda at bob un o'r 54 cyngorydd.

Gall yr holl Gyngorwyr ac Aelodau'r Cyhoedd arsylwi cyfarfodydd y Cabinet oni bai bod y mater dan sylw yn cael ei ystyried yn gyfrinachol. Ar gyfer materion cyfrinachol, bydd yn ofynnol i Aelodau'r Cyhoedd adael y cyfarfod.

Yn dilyn cyfarfod o'r Cabinet, cofnodir y penderfyniadau ar ffurf cofnodion. Cyn gynted ag y caiff cofnodion y cyfarfod eu cymeradwyo, cânt eu hanfon at bob un o'r 54 cyngorydd. Yna caiff unrhyw Gyngorydd gyfle i "alw i mewn" eitem i'w harchwilio ymhellach (gweler tudalen 2.13).

Cefnogir y Cabinet gan Swyddog Cabinet sydd wedi'i leoli o fewn y Tîm Gwasanaethau Democrataidd.



"...gwneud penderfyniadau o fewn y fframwaith cyllideb a pholisi a bennwyd gan y Cyngor."

## 2.9 Trosolwg a Chraffu

### Gwneud Penderfyniadau. Llawlyfr Ymgeiswyr ac Aelodau Etholedig 2022

Egwyddor y broses benderfynu dull Cabinet a fabwysiadwyd gan Gyngor Bro Morgannwg yw, trwy wneud nifer bach o Gynghorwyr yn gyfrifol am wneud penderfyniadau, y bydd y broses o wneud penderfyniadau yn gyflymach, yn effeithlon ac yn fwy atebol i'r rhai sy'n gwneud y penderfyniadau.

Fodd bynnag, mae angen sicrhau aelodau o'r cyhoedd bod y grŵp bach o Aelodau'r Cabinet yn gwneud penderfyniadau'n effeithiol ac yn gweithredu er lles gorau'r gymuned leol y maent yn ei gwasanaethu.

Ar hyn o bryd mae gan Gyngor Bro Morgannwg 5 Pwyllgor Craffu wedi'u penodi i ddylanwadu ar benderfyniadau a weir gan y Cabinet, er mwyn sicrhau bod barn ac anghenion y gymuned yn cael eu hystyried:

- Perfformio Corfforaethol ac Adnoddau
- Yr Amgylchedd ac Adfywio
- Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol
- Tai a Chymunedau Diogel
- Dysgu a Diwylliant

Gall dwyn y Cabinet i gyfrif olygu craffu ar benderfyniadau'r Cabinet ar nifer o wahanol gamau yn y broses gwneud penderfyniadau: cyn gwneud penderfyniadau, cyn iddynt gael eu gweithredu ac ar ôl iddynt gael eu gweithredu.

Ni ddylai dwyn y Cabinet i gyfrif fod yn ymwneud â herio – mae'n ymwneud yn fwy ag Aelodau nad ydynt yn rhan o'r Cabinet yn rhoi her "cyfaill beirniadol" i'r Cabinet a Deiliaid Portffolio unigol y Cabinet. Nid yw craffu'n ymwneud â herio unigolion na phersonoliaethau ond mae'n ymwneud â herio penderfyniadau a sicrhau gwelliant lle bo hynny'n bosibl.

Mae Pwyllgorau Craffu yn gwneud 'argymhellion' yn hytrach na 'phenderfyniadau' gan nad hwy yw uwch gorff penderfynu'r Cyngor.

Mae protocol sy'n nodi'r berthynas rhwng y Cabinet a Chraffu ar gael ar wefan y Cyngor:

[https://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/\\_Committee%20Reports/Scrutiny%20information/Protocols/21-05-12-Scrutiny-and-Cabinet-Roles-and-Responsibilities-Cabinet-Approved-Version-Welsh.pdf](https://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/_Committee%20Reports/Scrutiny%20information/Protocols/21-05-12-Scrutiny-and-Cabinet-Roles-and-Responsibilities-Cabinet-Approved-Version-Welsh.pdf)

Cynhelir Cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu bob mis (ar wahân i fis Awst).

Mae'r gyfraith yn nodi bod yn rhaid cyhoeddi agenda ar gyfer pob cyfarfod o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn (a heb gynnwys) dyddiad y cyfarfod. Mae Cyngor Bro Morgannwg yn cyhoeddi Agenda o leiaf 5 diwrnod clir cyn pob cyfarfod ac eithrio cyfarfodydd lle gall y cyhoedd gofrestru i siarad pan, yn yr achos hwnnw, rhoddir 6 diwrnod clir.

Ar ôl pob cyfarfod, rhaid cyhoeddi Hysbysiad o Benderfyniad a Chofnod Cyfarfod ar wefan y Cyngor.

[https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our\\_council/Council-Structure/minutes,\\_agendas\\_and\\_reports/minutes,\\_agendas\\_and\\_reports.aspx](https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our_council/Council-Structure/minutes,_agendas_and_reports/minutes,_agendas_and_reports.aspx)





## 2.9 Trosolwg a Chraffu (parhau)

### Gwneud Penderfyniadau. Llawlyfr Ymgeiswyr ac Aelodau Etholedig 2022

Rhaid i Hysbysiad o Benderfyniad fod ar gael i'r cyhoedd o fewn 7 diwrnod gwaith i'r cyfarfod (gan gynnwys diwrnod y cyfarfod) a nodi'r wybodaeth ganlynol:

- Enwau'r aelodau a ddaeth i'r cyfarfod, ac unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.
- unrhyw fuddiannau a ddatganwyd (gweler tudalen 3.16).
- unrhyw benderfyniad a wnaed yn y cyfarfod, gan gynnwys canlyniadau unrhyw bleidleisiau, ond heb gynnwys unrhyw beth sy'n ymwneud â phenderfyniad a wnaed pan nad oedd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd am ei fod yn datgelu gwybodaeth gyfrinachol.

Mae Cofnod y Cyfarfod hefyd yn cynnwys y pwyntiau a restrir uchod yn ogystal â thrafodaeth a gafodd yn y cyfarfod. Cyhoeddir Cofnodion y Cyfarfod cyn gynted â phosibl yn dilyn y cyfarfod.

Ceir rhagor o fanylion am Reolau Gweithdrefn Mynediad at Wybodaeth ar gyfer Aelodau'r Cyhoedd a Chynghorwyr yn adran 14 o Gyfansoddiad y Cyngor:

[https://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/\\_Committee%20Reports/Committee%20Information/Constitution/August-2021/Section-14.pdf](https://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/_Committee%20Reports/Committee%20Information/Constitution/August-2021/Section-14.pdf)

Gall pob cynghorydd, ac eithrio aelodau'r Cabinet, fod yn aelodau o'r Pwyllgor Craffu.

Gall Aelodau'r Cabinet fynychu Cyfarfodydd Craffu yn rheolaidd i ateb cwestiynau am benderfyniadau a wneir, neu y bwriedir eu gwneud, sydd yn unol â'u Portffolio Cabinet.

Gellir cyflwyno adroddiadau i Bwyllgor Craffu trwy un o'r llwybrau canlynol:

- Adroddiad a gyfeiriwyd at Bwyllgor Craffu gan y Cabinet i'w ystyried;
- Adroddiad a gyflwynwyd yn uniongyrchol i Bwyllgor Craffu fel rhan o'i Flaenraglen Waith (gweler tudalen 2.11);
- O ganlyniad i'r weithdrefn 'Galw i Mewn' (gweler tudalen 2.13);
- O ganlyniad i eitem "Cais am Ystyriaeth" a gyflwynwyd gan Aelod (gweler tudalen 2.14) neu
- ar ffurf cyfeiriad gan Bwyllgor Craffu arall neu Bwyllgor arall.

Yn ogystal ag Aelodau'r Pwyllgor Craffu ac Aelodau'r Cabinet, bydd Uwch Swyddogion sy'n gyfrifol am faes gwasanaeth ar gyfer pwnc eitem ar yr agenda sy'n cael ei thrafod hefyd yn mynychu Cyfarfodydd Craffu i gyflwyno adroddiad eitem ar yr agenda ac i ateb cwestiynau neu i roi cyngor ynghylch agweddau gweithredol ar wasanaeth penodol. Bydd hyn yn galluogi Aelodau i holi Swyddogion am effaith debygol unrhyw benderfyniadau a wneir gan y Cabinet ac i Aelodau gasglu mwy o ddealltwriaeth ynghylch y rhesymau pam y cytunwyd ar gamau gweithredu. Bydd aelodau Pwyllgor Craffu hefyd yn gallu holi Swyddogion am faterion sy'n effeithio ar berfformiad gwasanaeth penodol ac i ofyn am ragor o fanylion am yr adnoddau sydd ar gael yn y gwasanaeth hwnnw.

Rôl yr Uwch Swyddog fydd cynorthwyo'r Pwyllgor trwy ddarparu cyngor proffesiynol a sicrhau mynediad i wybodaeth a phersonél perthnasol. Fodd bynnag, pan fo'r eitem agenda yn ymwneud â "Galw i Mewn" ar gyfer penderfyniad gan y Cabinet, bydd yr Aelod Cabinet perthnasol yn ymateb i gwestiynau yn y lle cyntaf.



“...i ateb cwestiynau neu i roi cyngor ynghylch agweddau gweithredol ar wasanaeth penodol.”

## 2.9 Trosolwg a Chraffu (parhau)

Gwneud Penderfyniadau. Llawlyfr Ymgeiswyr ac Aelodau Etholedig 2022

Yn ogystal â Chyfarfod Pwyllgor Craffu ffurfiol, gall Pwyllgor Craffu hefyd ddewis sefydlu Gweithgor Gorchwyl a Gorffen sy'n galluogi aelodau'r Pwyllgor Craffu i ymchwilio a chraffu ar fater sy'n peri pryder i'r gymuned yn fanylach y tu allan i ffiniau'r cyfarfod ffurfiol. Unwaith y bydd aelodau'r gweithgor wedi cwblhau eu gwaith, byddant yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Craffu a allai yn ei dro ddewis gwneud argymhellion i'r Cabinet i'w hystyried.

Rhaid i Bwyllgorau Craffu adrodd yn flynyddol i'r Cyngor am eu gwaith a chyflwyno argymhellion ar gyfer rhaglenni gwaith i'r dyfodol a diwygio dulliau gweithredu os yw'n briodol.

Yn ogystal â'r Adroddiad Blynyddol Craffu, cyhoeddir Cylchlythyr Craffu ddwywaith y flwyddyn ac fe'i hanfonir at yr holl randdeiliaid i'w hysbysu o gynnydd y Pwyllgor Craffu a'r pwyntiau o ddiddordeb sy'n cael eu hystyried gan y Pwyllgorau ar hyn o bryd. Mae cylchlythyrau blaenorol ar gael ar wefan y Cyngor:

[https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our\\_council/Council-Structure/scrutiny/scrutiny.aspx](https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our_council/Council-Structure/scrutiny/scrutiny.aspx)

Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall aelodau o'r cyhoedd wneud cyfraniad pwysig a bod yn ffynhonnell werthfawr o wybodaeth. Felly, mae'r Cyngor yn annog y cyhoedd i gymryd rhan weithredol ym mhroses graffu'r Fro.

Gall aelod o'r cyhoedd ymgysylltu â'r broses Graffu yn y ffyrdd canlynol:

- 1) cofrestru i siarad mewn cyfarfod Pwyllgor Craffu,
- 2) anfon sylwadau ysgrifenedig at Gynghorwyr eu hystyried yn ystod cyfarfod,
- 3) cyflwyno sylw neu gwestiwn i'w ystyried gan Bwyllgor Craffu mewn perthynas ag eitem ar agenda cyfarfod sydd eisoes wedi'i chyhoeddi,
- 4) cyflwyno cais i ystyried pwnc mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu perthnasol yn y dyfodol yn unol â blaenoriaethau'r Cyngor.

Mae Canllaw i Siarad Cyhoeddus yn y Pwyllgor(au) Craffu ar gael ar wefan y Cyngor:

[https://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/\\_Committee%20Reports/Committee%20Information/Public-Speaking-Guides/21-07-26-%20Updated-Guide-for-Speaking-at-Scrutiny-Committees-as-approved-by-Full-Council-26-07-21-Welsh.pdf](https://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/_Committee%20Reports/Committee%20Information/Public-Speaking-Guides/21-07-26-%20Updated-Guide-for-Speaking-at-Scrutiny-Committees-as-approved-by-Full-Council-26-07-21-Welsh.pdf)

Mae Ffurflenni 'Sylwadau' a 'Cais am Ystyriaeth' Craffu hefyd ar gael ar wefan y Cyngor:

[https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our\\_council/Council-Structure/Public-Participation-at-Council-Meetings.aspx](https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our_council/Council-Structure/Public-Participation-at-Council-Meetings.aspx)

Mae Adran 7 o Gyfansoddiad y Cyngor yn rhoi mwy o fanylion am Swyddogaeth Graffu'r Cyngor:

[https://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/\\_Committee%20Reports/Committee%20Information/Constitution/June-2018/Section-7.pdf](https://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/_Committee%20Reports/Committee%20Information/Constitution/June-2018/Section-7.pdf)

## 2.10 Pwerau Dirprwyedig a Rheolau Gweithdrefn Ariannol

Gwneud Penderfyniadau. Llawlyfr Ymgeiswyr ac Aelodau Etholedig 2022

Y broses gwneud penderfyniadau arferol ar gyfer y Cyngor, ar y cyfan, yw drwy Gyfarfodydd y Cabinet a/neu'r Cyngor Llawn a'r pwyllgorau eraill hynny sy'n ymdrin â materion Cynllunio neu Drwyddedu, er enghraifft, ond mae rhai amgylchiadau a fydd yn caniatáu i benderfyniad gael ei wneud heb i'r mater gael ei gyflwyno i'r cyrff uchod ymlaen llaw neu o gwbl:

### Pwerau Dirprwyedig

Caiff gwaith holl staff Cyngor Bro Morgannwg a gweithrediad beunyddiol y sefydliad ei reoli gan Brif Swyddogion y Cyngor:

Mae'r Prif Swyddogion wedi'u rhannu'n Gyfarwyddwyr, Penaethiaid Gwasanaeth a Rheolwyr Gweithredol. Fel rheolwyr gwasanaeth maent yn gwneud argymhellion i'r Cabinet, y Cyngor a phwyllgorau perthnasol eraill ac yn atebol iddynt.

Er mwyn darparu dull ymarferol o reoli ariannol a gweithredol ledled y Cyngor, mae Prif Swyddogion wedi cael pwerau penodol ar ffurf Dirprwyaethau Swyddogion.

Nodir y pwerau dirprwyedig hyn yn Adran 25 o Gyfansoddiad y Cyngor a gellir eu diwygio, ychwanegu atynt, neu eu lleihau o bryd i'w gilydd er budd effeithlonrwydd gweithredol fel y'u pennwyd gan y Cabinet:

[https://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/\\_Committee%20Reports/Committee%20Information/Constitution/May-2020/20-05-26-Section-25.pdf](https://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/_Committee%20Reports/Committee%20Information/Constitution/May-2020/20-05-26-Section-25.pdf)

### Pwerau Brys y Prif Weithredwr

Mae gan y Prif Weithredwr bwerau dirprwyedig i weithredu ar unrhyw fater sydd, yn ei farn ef/hi, yn gofyn am weithredu ar unwaith ac nad yw'n cyfiawnhau cynnal cyfarfod arbennig o'r corff a fyddai fel arfer yn ystyried y mater, neu, nid oes digon o amser i gynnal cyfarfod oherwydd y natur frys.

Mae'n rhaid i'r Prif Weithredwr ymgynghori â'r Aelod Cabinet priodol cyn defnyddio ei bwerau brys ac os yw'r mater yn ymwneud â'r Cyngor mewn ymrwymadau ariannol ychwanegol, mae'n rhaid iddo/iddi hefyd ymgynghori â'r Arweinydd, y Swyddog Adran 151 a'r Prif Swyddog(ion) priodol.

Yn dilyn penderfyniad sy'n cael ei wneud o dan Bwerau Brys y Prif Weithredwr, mae'n rhaid rhoi gwybod am y penderfyniad i gyfarfod nesaf y Cabinet neu'r Cyngor Llawn fel y bo'n briodol.

### Y Cabinet Gweithdrefn Penderfyniadau Brys

Os oes angen gwneud penderfyniad yn gyflym, a/neu'n ddarostyngedig i derfynau amser, a bod naill ai:

- dim amser i'r mater fynd gerbron Pwyllgor Craffu i'w ystyried cyn ei gyflwyno i'r Cabinet am benderfyniad; neu



## 2.10 Pwerau Dirprwyedig a Rheolau Gweithdrefn Ariannol (parhau)

Gwneud Penderfyniadau Llawlyfr Ymgeiswyr ac Aelodau Etholedig 2022

- bod angen i'r mater gael ei gyfeirio at y Cyngor Llawn gan y Cabinet ond nid oes amser i gynnal cyfarfod Craffu i ystyried y mater rhwng cyfarfod y Cabinet yn cael ei gynnal a chyfarfod y Cyngor Llawn yn cael ei gynnal;

yna caiff y Cabinet ddefnyddio'r weithdrefn Penderfyniadau Brys.

Oherwydd natur frys yr eitem a gan na all y Pwyllgor Craffu perthnasol ei hystyried, mae'n rhaid i Gadeirydd (neu Is-gadeirydd) y Pwyllgor Craffu perthnasol gytuno bod y penderfyniad yn fater o frys ac na ellir ei ohirio'n rhesymol cyn y gellir defnyddio'r weithdrefn hon.

Ar gyfer materion sy'n groes i gyllideb a/neu fframwaith polisi'r Cyngor neu'n eu diwygio, dim ond os nad yw'n ymarferol cynnull cyfarfod o'r Cyngor Llawn y gellir trin penderfyniad a bydd y sawl sy'n gwneud y penderfyniad yn darparu adroddiad llawn i gyfarfod nesaf y Cyngor sydd ar gael yn esbonio'r penderfyniad, y rhesymau drosto a pham y cafodd y penderfyniad ei drin fel mater o frys.

Bydd pob achos arall o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys sy'n cael ei defnyddio yn cael ei adrodd i'r Cabinet.

### Rheolau Gweithdrefn Ariannol

Ceir manylion Rheolau Gweithdrefn Fframwaith Polisi a Chyllideb y Cyngor, Rheolau Gweithdrefn Ariannol a Rheolau Gweithdrefn Contract, yn adrannau 15 – 17 o Gyfansoddiad y Cyngor:

[https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our\\_council/Constitution.aspx](https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our_council/Constitution.aspx)



"...bydd y sawl sy'n gwneud y penderfyniad yn darparu adroddiad llawn i gyfarfod nesaf y Cyngor sydd ar gael yn esbonio'r penderfyniad..."

## 2.11 Blaenraglenni Gwaith

Gwneud Penderfyniadau. Llawlyfr Ymgeiswyr ac Aelodau Etholedig 2022

Mae Blaenraglenni Gwaith yn gyfres o ddogfennau sy'n rhestru pynciau'r penderfyniadau y mae'r Cyngor Llawn, y Cabinet a'r Pwyllgorau Craffu yn bwriadu eu gwneud, yn ogystal â phryd y trafodir y materion hynny.

Nid yw'r amserlennu hwn ymlaen llaw yn atal materion brys neu anragweladwy rhag cael eu hystyried.

Mae pob un o'r cyrff uchod yn gyfrifol am eu Rhaglenni Gwaith eu hunain.

Paratoir Blaenraglenni Gwaith Blynyddol ar ddechrau pob Blwyddyn y Cyngor ac fe'u hategir gan Raglenni Gwaith chwarterol wedi'u diweddaru drwy gydol y flwyddyn.

Mae'r Cabinet yn gweithio i Flaenraglen Waith Flynyddol fel y gall Cyngorwyr a'r Cyhoedd weld pa Adroddiadau y disgwylir iddynt gael eu cyflwyno i ba Gyfarfod Cabinet ar draws blwyddyn gyfan y Cyngor.

Mae Blaenraglen Waith y Cabinet yn ddogfen waith ac mae bob amser yn destun newid yn seiliedig ar flaenoriaethau newidiol a dyddiadau cyfarfodydd y Cabinet.

Felly, mae Swyddog y Cabinet yn monitro Blaenraglen Waith Flynyddol y Cabinet bob chwarter ac yn cynhyrchu fersiwn chwarterol o Flaenraglen Waith y Cabinet a gyhoeddir ar wefan y Cyngor ochr yn ochr â'r fersiwn Flynyddol.


Gan ddefnyddio Blaenraglen Waith Flynyddol y Cabinet, mae pob un o Bwyllgorau Craffu'r Cyngor yn adeiladu ei Flaenraglen Waith Flynyddol ei hun sydd hefyd yn cael ei diweddaru bob chwarter a'i chyhoeddi ar wefan y Cyngor:

[https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our\\_council/Council-Structure/scrutiny/scrutiny\\_committees.aspx](https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our_council/Council-Structure/scrutiny/scrutiny_committees.aspx)

Yn ogystal ag adroddiadau penodol/untro y maes gwasanaeth sy'n dod o dan gylch gwaith pwyllgor craffu unigol, mae'r holl Flaenraglenni Gwaith Craffu hefyd yn cynnwys yr adroddiadau canlynol yn rheolaidd:

- Monitro'r Gyllideb
- Rheoli Perfformiad, a
- Tracio Argymhellion Craffu a Diweddariadau Rhaglenni Gwaith.

"...Nid yw'r amserlennu hwn ymlaen llaw yn atal materion brys neu anragweladwy rhag cael eu hystyried."



## 2.12 Calendr Corfforaethol Cyfarfodydd

Gwneud Penderfyniadau. Llawlyfr Ymgeiswyr ac Aelodau Etholedig 2022

Mae Blwyddyn y Cyngor yn ymestyn o 1 Mai i 30 Ebrill.

Cyhoeddir Calendr Corfforaethol o Gyfarfodydd bob blwyddyn (mis Ionawr fel arfer) sy'n nodi'r gwahanol gyfarfodydd pwyllgor o fewn blwyddyn nesaf y Cyngor sy'n dechrau ym mis Mai.

Mae tri math o gyfarfod:

- 1) Cyfarfod Blyneddol (gweler tudalen 1.3).
- 2) Cyfarfodydd Cyffredin – Cyfarfodydd a drefnwyd cyn y flwyddyn ddinesig fel y cytunwyd gan y Cabinet a Chadeirydd perthnasol y Pwyllgor; a
- 3) Chyfarfodydd Eithriadol – Cyfarfodydd a elwir ar sail ad hoc gan Gadeirydd y Pwyllgor yn ystod blwyddyn y cyngor.

Ni chynhelir cyfarfodydd fel arfer ym mis Awst na gwyliau academiaidd pythefnos y Pasg gan fod y rhain yn cael eu hystyried yn gyfnodau'r toriad.

Cynhelir y rhan fwyaf o'r cyfarfodydd gyda'r nos a bydd yr amser cychwyn yn cael ei nodi ar y calendr.

Unwaith y bydd y Cabinet wedi cytuno ar y calendr, caiff ei e-bostio at yr holl Aelodau Etholedig a'i lanlwytho i Wefan y Cyngor:

[https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our\\_council/Council-Structure/minutes,\\_agendas\\_and\\_reports/minutes,\\_agendas\\_and\\_reports.aspx](https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our_council/Council-Structure/minutes,_agendas_and_reports/minutes,_agendas_and_reports.aspx)

Mae Calendr Corfforaethol y Cyfarfodydd yn amodol ar unrhyw newidiadau yn y trefniadau yn y dyfodol ar gyfer cyfarfodydd a ystyrir yn briodol gan Faer y Cyngor neu Gadeirydd perthnasol y Pwyllgor.

Nid yw holl gyrff y Cyngor yn cael eu hadlewyrchu yn y Calendr Corfforaethol, fodd bynnag, bydd Swyddogion y Gwasanaethau Democraidd yn gallu rhoi cyngor ar ddyddiadau cyfarfodydd yn ôl y gofyn (gweler y manylion cyswllt ar dudalen 1.1).



## 2.13 Galw i Mewn

### Gwneud Penderfyniadau. Llawlyfr Ymgeiswyr ac Aelodau Etholedig 2022

Y broses Galw i Mewn yw'r mecanwaith a ddefnyddir gan unrhyw Gyngorydd Bro Morgannwg i ofyn i'r Pwyllgor Craffu perthnasol adolygu penderfyniad a wnaed gan y Cabinet ar yr amod nad yw'r penderfyniad yn ddarostyngedig i:

- Weithredu'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys (gweler tudalen 2.10);
- Os oes angen i'r penderfyniad gael ei gadarnhau gan y Cyngor Llawn, neu
- Os yw'r mater eisoes wedi'i gyfeirio gan y Cabinet at Bwyllgor Craffu i'w ystyried.

Pan wneir penderfyniad gan y Cabinet, bydd y penderfyniad (ar ffurf cofnodion cyfarfod) yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor. Mae hyn yn nodi dechrau'r cyfnod Galw i Mewn pan fydd gan gyngorwyr bum diwrnod gwaith, heb gynnwys y dyddiad cyhoeddi, i gwblhau Ffurflen Gais Galw i Mewn.

Os na dderbynnir ceisiadau Galw i Mewn erbyn diwedd y cyfnod Galw i Mewn, yna mae penderfyniad y Cabinet yn sefyll a gall Swyddogion weithredu ar y penderfyniad.

Os derbynnir cais Galw i Mewn yn ystod y cyfnod Galw i Mewn yna rhaid i Gadeirydd y Pwyllgor Craffu perthnasol ei dderbyn i ddechrau, gan y bydd y Pwyllgor Craffu perthnasol yn cael cyfle i drafod a gwerthuso rhinweddau penderfyniad y Cabinet. Rhaid i'r Pwyllgor Craffu perthnasol gyfarfod o fewn ugain diwrnod gwaith ar ôl derbyn y cais 'Galw i Mewn', heb gyfrif mis Awst.

Oni bai bod amgylchiadau esgusodol, byddai disgwyl i'r Aelod Cabinet perthnasol fynychu cyfarfod y Pwyllgor Craffu pan fydd cais 'Galw i Mewn' yn cael ei ystyried. Derbynnir, fodd bynnag, fod Swyddogion mewn sefyllfa well yn aml i gyflwyno gwybodaeth fanylach a arweiniodd at y penderfyniad ac ystyrir bod hyn yn dderbyniol, er mai'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau ddylai gael ei ddal i gyfrif bob amser.

Nid yw'r cyhoedd yn gallu galw i mewn benderfyniad gan y Cabinet, dim ond Cyngorwyr Bro Morgannwg, felly dim ond ar adran MemberNet o StaffNet - system mewnruwyd y Cyngor - y mae'r Ffurflenni Cais Galw i Mewn ar gael.



"...yn cael cyfle i drafod a gwerthuso rhinweddau penderfyniad y Cabinet."

## 2.14 Ceisiadau í'w Hystyried

Gwneud Penderfyniadau. Llawlyfr Ymgeiswyr ac Aelodau Etholedig 2022

Mae Adran 62 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi trefniadau ar waith i alluogi pawb sy'n byw neu'n gweithio yn ardal Bro Morgannwg i ddwyn i sylw'r Pwyllgor Craffu perthnasol eu barn ar unrhyw fater sy'n cael ei ystyried gan y Pwyllgor. Rhaid i Bwyllgor Craffu hefyd ystyried unrhyw farn a ddygir i'w sylw gan aelod o'r cyhoedd.


Felly gall **unrhyw** Gynghorydd unigol Bro Morgannwg ofyn i'r Pwyllgor Craffu perthnasol ystyried mater neu bwnc penodol drwy lenwi Ffurflen Gais am Ystyriaeth sydd i'w gweld ar MemberNet.

Gall aelodau'r Cyhoedd hefyd ymgysylltu â'r broses hon a gallant gael mynediad i'r ffurflen drwy'r ddolen ganlynol (gweler hefyd y dudalen \*\* 'Trosolwg a Chraffu'):

[https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our\\_council/Council-Structure/scrutiny/scrutiny.aspx](https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our_council/Council-Structure/scrutiny/scrutiny.aspx)

Rhaid anfon pob Cais am Ystyriaeth at y Tîm Gwasanaethau Democraataidd a fydd yn rhannu'r cais gyda'r Cyfarwyddydd(ion) priodol sydd eu hangen i baratoi adroddiad i'w ystyried gan y Pwyllgor(au) Craffu perthnasol. Bydd copi o'r cais hefyd yn cael ei anfon at y Cadeirydd Craffu perthnasol er gwybodaeth.

Nid oes terfyn amser ar ba bryd y mae'n rhaid ystyried cais ond bydd y Swyddogion perthnasol a Chadeirydd y Pwyllgor yn gwneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau bod y cais yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor cyn gynted â phosibl.





## 3.15 Cod Ymddygiad

### Cod Ymddygiad. Llawlyfr Ymgeiswyr ac Aelodau Etholedig 2022

Mae Llywodraeth Leol effeithiol yn gofyn am safonau ymddygiad uchel i sicrhau bod y cyhoedd â ffydd yng ngwaith y Cyngor. Mae Adran 18 o Gyfansoddiad Cyngor Bro Morgannwg yn nodi'r safonau hynny, sut i'w cymhwyso a'r canlyniadau posibl i Gynghorwyr os nad ydynt yn glynu wrthynt.

Rhaid i bob Cynghorydd gytuno i ddilyn Cod Ymddygiad Bro Morgannwg fel y nodir yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

Gallai methu â dilyn y Cod Ymddygiad neu fethu cadw wrtho arwain at atal Cynghorydd o'i waith dros dro, ceryddu Cynghorydd yn ffurfiol neu ddiswyddo Cynghorydd.

Mae gan Aelodau Etholedig ddyletswydd gyfreithiol i weithredu'n foesebol a rhaid iddynt roi sylw i'r egwyddorion canlynol:

- Anhunanoldeb
- Gonestrwydd
- Uniondeb a Phriodoldeb
- Dyletswydd i gynnal y gyfraith
- Stiwardiaeth
- Gwrthrychedd wrth wneud penderfyniadau
- Cydraddoldeb a pharch
- Bod yn agored
- Atebolrwydd
- Arweinyddiaeth



Mae'r Rheolau Cyffredinol y mae angen i Aelod Etholedig eu dilyn dan y Cod fel a ganlyn:

- Hyrwyddo cydraddoldeb,
- Trin pobl eraill gyda pharch a'u hystyried,
- Peidio â bwlio nac aflonyddu ar bobl,
- Peidio â chyfaddawdu didueddrwydd swyddogion,
- Peidio â datgelu gwybodaeth gyfrinachol,
- Peidio ag atal mynediad at wybodaeth,
- Peidio â dwyn anfri ar eich swyddfa neu'ch awdurdod,
- Rhoi gwybod am achosion o dorri'r cod i'r Swyddog Monitro,
- Rhoi gwybod am ymddygiad y credir ei fod yn cynnwys ymddygiad troseddol neu sy'n debygol o'i gynnwys,
- Peidio â gwneud cwynion blinderus,
- Cydweithredu ag ymchwiliadau,
- Peidio â defnyddio eu safle'n amhriodol,
- Peidio â chamddefnyddio adnoddau'r awdurdod,
- Gwneud penderfyniadau'n wrthrychol,
- Ystyried cyngor a roddir gan swyddogion a rhoi rhesymau am beidio â'i gymryd,
- Cydymffurfio â'r gyfraith a rheolau'r awdurdod ynghylch treuliau a
- Peidio â derbyn unrhyw roddion neu letygarwch (gweler tudalen 3.17) a fyddai'n eich rhoi o dan rwymedigaeth neu'n ymddangos fel pe baent yn gwneud hynny.

“Mae gan Aelodau Etholedig ddyletswydd gyfreithiol i weithredu'n foesebol...”

## 3.15 Cod Ymddygiad

### Cod Ymddygiad. Llawlyfr Ymgeiswyr ac Aelodau Etholedig 2022

Mae gan y Cyngor hefyd 'Brotocol Safon Ymddygiad a Ddisgwylir gan Aelodau' sy'n nodi'r ymddygiad sy'n dderbyniol ac yn annerbyniol rhwng Cynghorwyr. Mae'n sefyll ochr yn ochr â'r Cod ac yn llenwi'r bwlch rhwng ymddygiad nad yw ynddo'i hun yn ddifrifol o bosibl, ond sy'n creu amgylchedd annymunol rhwng Aelodau, ac ymddygiad sy'n agosáu at y trothwy ac sy'n ddigon difrifol i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (gweler tudalen 3.18) gynnal ymchwiliad.

#### Cysylltiadau Aelodau a Swyddogion

Mae Cynghorwyr a Swyddogion yn weision i'r cyhoedd, ac maent yn angenrheidiol i'w gilydd. Ond mae eu cyfrifoldebau'n wahanol. Mae cynghorwyr yn atebol i'r etholwyr ac maent ond yn gwasanaethu cyhyd ag y bydd eu cyfnod yn y swydd yn para. Mae swyddogion yn atebol i'r Cyngor. Maent yn rhoi cyngor i Gynghorwyr a'r Cyngor ac yn cyflawni gwaith y Cyngor dan gyfarwyddyd a rheolaeth y Cyngor, ei bwyllgorau a'i is-bwyllgorau.

Mae Adran 21 o Gyfansoddiad y Cyngor yn nodi'r Protocol Aelodau a Swyddogion sy'n cynnig cyfres o egwyddorion i arwain Aelodau a Swyddogion y Cyngor wrth ddelio â'i gilydd:

[https://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/\\_Committee%20Reports/Committee%20Information/Constitution/May-2021/Section-21.pdf](https://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/_Committee%20Reports/Committee%20Information/Constitution/May-2021/Section-21.pdf)

#### Y Pwyllgor Safonau

Mae gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor y rolau a'r swyddogaethau canlynol:

- (a) hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel Cynghorwyr,
- (b) cynorthwyo'r Cynghorwyr i lynu wrth God Ymddygiad yr Aelodau,
- (c) cynghori'r Cyngor ar fabwysiadu neu adolygu Cod Ymddygiad yr Aelodau,
- (d) monitro'r gwaith o weithredu Cod Ymddygiad yr Aelodau,
- (e) cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi Cynghorwyr ar faterion yn ymwneud â Chod Ymddygiad yr Aelodau,
- (f) rhoi eithriadau (gweler tudalen \*\*) i Gynghorwyr o ofnion sy'n ymwneud â buddiannau a nodir yng Nghod Ymddygiad yr Aelodau,
- (g) ymdrin ag unrhyw adroddiadau o dribiwnlys achos neu dribiwnlys achos dros dro, ac unrhyw adroddiad gan y Swyddog Monitro ar unrhyw fater a gyfeirir at y swyddog hwnnw gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus,
- (h) cyflawni (a) i (g) uchod mewn perthynas â Chynghorau Cymunedol yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn ei ardal ac aelodau'r Cynghorau Cymunedol hynny; a
- (i) throsolwg o ymdrin â chwynion ac ymchwiliadau'r Ombwdsmon.

Mae adran 8 o Gyfansoddiad y Cyngor yn nodi cylch gorchwyl llawn y Pwyllgor Safonau:

[https://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/\\_Committee%20Reports/Committee%20Information/Constitution/May-2021/Section-8.pdf](https://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/_Committee%20Reports/Committee%20Information/Constitution/May-2021/Section-8.pdf)



## 3.16 Datgan Buddiannau

### Cod Ymddygiad. Llawlyfr Ymgeiswyr ac Aelodau Etholedig 2022

Rhaid i'r cyhoedd fod yn hyderus bod Cynghorwyr yn gwneud penderfyniadau er lles y cyhoedd ac nid er eu budd eu hunain. Felly, os oes gan Gynghorydd fuddiant, rhaid iddo ei ddatgan.

Buddiant yw unrhyw fath o fusnes neu ased y gellid ystyried ei fod yn dylanwadu ar benderfyniad Cynghorydd.

Mae Adran 18 Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi:

- y mathau gwahanol o fuddiannau,
- o dan ba feini prawf y mae buddiannau'n bodoli,
- y broses ddatgan ar gyfer Cynghorwyr,
- sut y mae'n rhaid cofrestru buddiannau cyn cyhoeddi ac
- i ba raddau y gall cynghorydd gymryd rhan ym musnes y cyngor os oes ganddo fuddiant.

Ar ôl pob Etholiad Llywodraeth Leol, gofynnir i'r Aelodau Etholedig llwyddiannus lenwi Ffurflen Cofrestr Buddiannau a gyhoeddir wedyn ar wefan gyhoeddus y Cyngor ac sy'n parhau ar y wefan drwy gydol cyfnod y Cynghorydd yn y swydd:

[https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our\\_council/Council-Structure/councillors/Register-of-Members-Interests.aspx](https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our_council/Council-Structure/councillors/Register-of-Members-Interests.aspx)

Os bydd busnes neu asedau Cynghorydd yn newid yn ystod ei gyfnod fel cynghorydd, yna rhaid iddo lenwi Ffurflen Newid Buddiant a gyhoeddir wedyn ochr yn ochr â'u Ffurflen Cofrestr Buddiannau wreiddiol ar wefan y Cyngor.

Os oes angen cyngor ar Gynghorydd ar unrhyw fater y mae'n credu allai fod yn fuddiant, yna rhaid i'r Cynghorydd gysylltu â Swyddog Monitro'r Cyngor.

Gall Swyddogion Gwasanaethau Democraidd, ar ran y Swyddog Monitro, hefyd gynnig cyngor ar Fuddiannau Aelodau yn ystod Cyfarfodydd Pwyllgor. Rhaid i gynghorwyr ddatgan eu diddordeb mewn cyfarfod cyn gynted ag y byddant yn ymwybodol bod mater i'w drafod a rhaid iddynt gwblhau'r Ffurflen Datgan Buddiannau a ddarperir gan y Gwasanaethau Democraidd.

Mae rhai Cynghorwyr hefyd wedi'u hethol i wasanaethu ar Gyngor Tref neu Gymuned yn ogystal, ac felly mae'n rhaid iddynt roi sylw dyledus i ddatganiadau o fuddiannau fel Aelod o Brif Gyngor a Chyngor Tref a Chymuned.



## 3.17 Cofrestru Rhoddion a Lletygarwch

Cod Ymddygiad. Llawlyfr Ymgeiswyr ac Aelodau Etholedig 2022

Rhaid i bob Cyngorydd, o fewn wyth diwrnod ar hugain o dderbyn unrhyw rodd, lletygarwch, budd materol neu fantais dros £25 neu gyfanswm o £100 dros flwyddyn o un ffynhonnell, roi hysbysiad ysgrifenedig i Swyddog Monitro'r Cyngor.

Yna bydd nodyn yn cael ei ychwanegu at y Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch a gedwir gan y Swyddog Monitro.



## 3.18 Cwynion

Cod Ymddygiad. Llawlyfr Ymgeiswyr ac Aelodau Etholedig 2022

Gall unrhyw berson sy'n dymuno cyflwyno cwyn am Wasanaeth Bro Morgannwg wneud hynny drwy Weithdrefn Canmol a Chwyno Corfforaethol y Cyngor fel y nodir ar wefan y Cyngor:

[https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our\\_council/Complaints-and-Compliments.aspx](https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our_council/Complaints-and-Compliments.aspx)

Dylai cynghorwyr, wrth ddelio â chwyn gan etholwr/y cyhoedd gyfeirio'r unigolyn at y weithdrefn gwyno uchod os na allant ddatrys y mater eu hunain.

Ar gyfer cwynion sy'n ymwneud â Chynghorwyr Bro Morgannwg, gall y person:

- Gysylltu â Swyddog Monitro'r Cyngor yn uniongyrchol, neu
- Gysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn annibynnol ar Gyngor Bro Morgannwg ac mae ganddo bwerau cyfreithiol i ymchwilio i gwynion am wasanaethau cyhoeddus a darparwyr gofal annibynnol yng Nghymru. Maen nhw hefyd yn ymchwilio i gwynion bod aelodau o gyrff llywodraeth leol wedi torri cod ymddygiad eu hawdurdod.


Os yw'r Ombwdsmon o'r farn bod cyfiawnhad dros gŵyn, yna byddant yn cyfeirio'r gŵyn at Bwyllgor Safonau'r Cyngor neu at dribiwnlys wedi ei gynnull gan Banel Dyfarnu Cymru yn dibynnu ar ddifrifoldeb y gŵyn.

Ar gyfer cyhuddiadau lefel isel yn ymwneud ag achosion o dorri Cod Ymddygiad Cyngor Bro Morgannwg a wneir gan Gynghorydd yn erbyn Cynghorydd arall, mae gan y Cyngor Weithdrefn Datrys Anghydfodau Lleol dan oruchwyliaeth Swyddog Monitro'r Cyngor. Prif amcanion y weithdrefn yw:

- datrys honiadau o dorri'r Cod a Phrotocol yn lleol ac yn gyflym,
- osgoi dwysáu'r sefyllfa'n ddiangen a allai effeithio ar berthnasoedd personol o fewn y Cyngor a niweidio enw da'r Cyngor,
- osgoi cynnwys yr Ombwdsmon yn ddiangen fel bod eu hadnoddau'n cael eu neilltuo i ymchwilio i gwynion mwy difrifol neu sydd wedi eu haildrodd.

Mae manylion ynghylch y Weithdrefn Datrys Anghydfodau Lleol yn Adran 18 Cyfansoddiad y Cyngor:

[https://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/\\_Committee%20Reports/Committee%20Information/Constitution/May-2021/Section-18.pdf](https://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/_Committee%20Reports/Committee%20Information/Constitution/May-2021/Section-18.pdf)



"...osgoi dwysáu'r sefyllfa'n ddiangen..."

## 3.19 Presenoldeb Aelodau

### Cod Ymddygiad. Llawlyfr Ymgeiswyr ac Aelodau Etholedig 2022

Mae gan bob Cynghorydd hawl i fynychu unrhyw gyfarfod ffurfiol o'r Cyngor boed hynny'n Bwyllgorau, is-bwyllgorau neu'n Gabinet.

Mae gan Gynghorydd hawl i fynychu unrhyw Gyfarfod Pwyllgor ond nid oes ganddo hawl i gymryd rhan mewn trafodion, os nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, heb ganiatâd y Pwyllgor.

Ni all Cynghorydd bleidleisio ar fater sy'n cael ei ystyried gan y Pwyllgor os nad yw'n aelod o'r Pwyllgor neu wedi datgan buddiant rhagfarnus (gweler tudalen \*\*).

Os yw Cynghorydd wedi methu â mynychu unrhyw gyfarfod o'r Cyngor am chwe mis yn olynol, yna bydd yn peidio â bod yn Aelod Etholedig o'r Cyngor.

Mae gan bob Cynghorydd Dudalen Aelod benodedig ar wefan y Cyngor sy'n cynnwys eu cofnod presenoldeb ar gyfer y Pwyllgor y cawsant eu penodi iddo yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor neu ar ôl newid cynrychiolaeth grwpiau gwleidyddol ar Bwyllgor a wnaed ar gais arweinydd y grŵp perthnasol.

Bydd y Swyddog Gwasanaethau Democraidd sy'n bresennol ym mhob cyfarfod yn gwneud cofnod o ba Gynghorwyr sy'n bresennol, yn ogystal ag unrhyw ymddiheuriadau a roddir dros absenoldeb, ac yn defnyddio'r wybodaeth honno i ddiweddarau cofnodion ar-lein presenoldeb aelodau yn rheolaidd.

Gellir cynnal cyfarfodydd y Cyngor wyneb yn wyneb, o bell ar-lein neu drwy gyfuniad o'r ddau (hybrid). Ceir rhagor o fanylion am sut y cynhelir cyfarfodydd yn 'Polisi Presenoldeb mewn Cyfarfodydd Awdurdodau Lleol' y Cyngor sydd ar gael ar wefan y Cyngor:

[https://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/\\_Committee%20Reports/Remote-Procedures-COVID-19/21-04-27-Attendance-at-Local-Authority-Meetings-WELSH.pdf](https://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/_Committee%20Reports/Remote-Procedures-COVID-19/21-04-27-Attendance-at-Local-Authority-Meetings-WELSH.pdf)

Pan fo cyfarfodydd yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb, cynhelir y rhan fwyaf o'r cyfarfodydd yn adeilad y Swyddfa Ddinesig yng Nghanol Tref y Barri. Mae sawl ystafell gyfarfod wahanol yn yr adeilad ond y fwyaf yw Siambr y Cyngor. Yn y Siambr bydd gofyn i chi ddefnyddio microffon i sicrhau y gall pawb sy'n cymryd rhan eich clywed. Mae system dolen clyw hefyd ar gael yn Siambr y Cyngor.

Os caiff ei gynnal o bell, cynhelir y cyfarfod naill ai ar y Microsoft Teams neu Lwyfan CIVICO. Bydd pob Cynghorydd yn derbyn o leiaf gliniadur a ffôn symudol gan y Cyngor i'w cefnogi i gyflawni eu dyletswyddau drwy Microsoft Office a chael mynediad i'r ddau lwyfan (gweler tudalen 5.28).

Ar gyfer cyfarfod hybrid, bydd rhai cyfranogwyr wyneb yn wyneb yn yr un ystafell gyfarfod a bydd rhai mewn lleoliad gwahanol yn cymryd rhan drwy ddyfais electronig.



## 3.19 Presenoldeb Aelodau (parhau)

Cod Ymddygiad. Llawlyfr Ymgeiswyr ac Aelodau Etholedig 2022

Mae'r rhan fwyaf o Gyfarfodydd y Cyngor yn cael eu ffrydio'n fyw drwy lwyfan CIVICO fel y gall unrhyw un wyllo'r cyfarfod yn fyw ar yr adeg y cynhelir y cyfarfod drwy glicio ar y hyperddolen briodol ar y Tudalen Gwe Cofnodion, Agendâu ac Adroddiadau'r Cyngor. Fodd bynnag, mae cyfarfodydd hefyd yn cael eu recordio i'w gwyllo ar alw yn ddiweddarach. Mae recordiadau diweddar ar gael ar alw drwy glicio ar y ddolen briodol ar Hafan CIVICO y Cyngor:

<https://civico.net/valeofglamorgan>


Mae recordiadau mwy hanesyddol ar gael drwy Sianel YouTube y Gwasanaethau Democrataidd:

<https://www.youtube.com/channel/UC1KDuJ63xoGQ0B8IKklHNQ>

O 1 Mai 2022, ar gyfer unrhyw gyfarfodydd sy'n cael eu ffrydio'n fyw, fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Lywodraeth ac Etholiadau Lleol (Cymru) 2021, rhaid i Gynghorwyr sy'n cymryd rhan gael eu gweld ar y sgrin wrth gymryd rhan weithredol yn ystod cyfarfod.

Gall rhai cyfarfodydd gynnwys gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig ac felly nid yw'r cyfarfodydd hyn yn cael eu recordio na'u ffrydio'n fyw. Cyfeirir at wybodaeth gyfrinachol ar agenda fel gwybodaeth 'Rhan Dau' (Rhan II).

Gall aelodau o'r cyhoedd fynychu'n bersonol ac arsylwi cyfarfodydd y Cyngor tra byddant yn cael eu cynnal. Mae'r cyfyngiadau Rhan II uchod hefyd yn berthnasol a phan fydd eitemau o'r fath yn cael eu trafod, gofynnir i'r cyhoedd adael y cyfarfod gan y Cadeirydd.



"Gall aelodau o'r cyhoedd fynychu'n bersonol ac arsylwi cyfarfodydd y Cyngor tra byddant yn cael eu cynnal."

## 3.20 Rheolau Trafod

Cod Ymddygiad. Llawlyfr Ymgeiswyr ac Aelodau Etholedig 2022

Mae Adran 4 Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi'r gwahanol reolau gweithdrefn a'r rheolau trafod y mae'n rhaid i Gynghorwyr gadw atynt yn ystod Cyfarfodydd y Cyngor megis:

- Sut i gynnig pwnc i'w drafod (cynnig) a phleidleisio yn ystod y cyfarfod ei hun a chyn y cyfarfod,
- Y gwahanol fathau o areithiau, pryd i'w gwneud ac am ba hyd,
- Sut i ddiwygio, newid neu dynnu cynnig yn ôl cyn pleidlais,
- Sut i ymddwyn yn ystod y cyfarfod ac annerch y Cadeirydd, a'r
- gwahanol fathau o bleidlais a'r broses ar gyfer y rhain.

Bydd pob Cynghorydd yn cael hyfforddiant ar Reolau Trafod fel rhan o'r Rhaglen Sefydlu a Datblygu Aelodau (gweler tudalen 3.21).





## 3.21 Rhaglen Sefydlu a Datblygu Aelodau

Cod Ymddygiad. Llawlyfr Ymgeiswyr ac Aelodau Etholedig 2022

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i raglen barhaus o Ddatblygu Aelodau i gefnogi Cynghorwyr i gyflawni eu cyfrifoldebau ac ymgymryd â'u rôl/rolau o fewn y Cyngor drwy gydol eu tymor o 5 mlynedd.

Yn syth ar ôl pob Etholiad Llywodraeth Leol, cynhelir Digwyddiad Sefydlu Aelodau, a fydd yn cael ei ddilyn gan sesiynau datblygu pwnc-benodol ar ystod o feysydd pwnc perthnasol sy'n gysylltiedig â'r rolau a'r cyfrifoldebau amrywiol y bydd Cynghorwyr yn ymgymryd â hwy.

Unwaith y bydd unigolyn wedi'i gadarnhau fel Ymgeisydd ar gyfer Etholiad Llywodraeth Leol 2022, bydd yn derbyn e-bost/llythyr gan Bennaeth y Gwasanaethau Democraidd yn gofyn iddo gadw lle yn un o Ddigwyddiadau Sefydlu Aelodau'r Cyngor. Bydd hyn yn sicrhau bod gan bob ymgeisydd llwyddiannus ddyddiadau/amseroedd y digwyddiad hanfodol hwn yn eu dyddiaduron cyn yr etholiad ac yn caniatáu i Swyddogion y Cyngor gynllunio'n briodol ar gyfer y digwyddiad, a gynhelir yn fuan ar ôl yr etholiad ei hun.

Bydd rhai o'r sesiynau datblygu pwnc-benodol yn agored i bob Cynghorydd, a bydd rhai'n gysylltiedig ag aelodau Pwyllgorau penodol (e.e. Cynllunio / Trwyddedu), er y byddai croeso mawr i Aelodau nad ydynt yn Aelodau o'r Pwyllgor hefyd.

Mae'r Cyngor wedi penderfynu y bydd rhai sesiynau yn hanfodol (gorfodol) ar gyfer Cynghorwyr newydd a rhai sy'n dychwelyd, naill ai ar gyfer pob Cynghorydd neu'r Cynghorwyr hynny a benodir i Bwyllgorau penodol.

**Ar gyfer Pwyllgorau fel Cynllunio a Thrwyddedu, bydd yn rhaid i Gynghorwyr fod wedi mynychu'r hyfforddiant er mwyn cymryd eu sedd ar y Pwyllgor.**

Mae'r Rhaglen Sefydlu a Datblygu Aelodau yn digwydd dros bedwar cam:

- **Phase 1** Dyma'r bythefnos gyntaf yn dilyn yr Etholiad Llywodraeth Leol ond cyn Cyfarfod Blyneddol cyntaf y Cyngor [Mai]. Cynhelir y Digwyddiad Sefydlu Aelodau yn ystod y cam, hwn yn ogystal â sesiynau rhagarweiniol eraill.
- **Phase 2** Deufis arall [Mehefin a Gorffennaf] cyn Toriad Awst a'r cyfnod pan gynhelir y cyfarfodydd pwyllgor cyntaf.
- **Phase 3** Pedwar mis arall [Medi – Rhagfyr] hyd at ddiwedd y flwyddyn galendr - mae'n cwmpasu chwe mis cyntaf y flwyddyn ddinesig ers yr Etholiad Llywodraeth Leol.
- **Phase 4** Mae hwn yn gyfnod datblygu parhaus tan yr Etholiad Llywodraeth Leol nesaf yn seiliedig ar bynciau y mae'r Cynghorwyr yn gofyn amdanynt.

Cynigir dwy sesiwn ar gyfer pob pwnc seminar, un yn ystod y dydd ac un gyda'r nos, i sicrhau bod y Cynghorwyr ar gael, oni bai ei bod yn sesiwn a hwylusir gan gyflwynydd allanol neu fod ddim angen gwneud hynny oherwydd y nifer isel o Gynghorwyr y disgwylir iddynt fod yn bresennol.



## 3.21 Rhaglen Sefydlu a Datblygu Aelodau (parhau)

Cod Ymddygiad. Llawlyfr Ymgeiswyr ac Aelodau Etholedig 2022

Gellir hwyluso sesiynau datblygu mewn amrywiaeth o ffyrdd. Gallant ddigwydd wyneb yn wyneb, naill ai mewn seminar neu weithdy, neu gael eu cyflwyno o bell drwy gyfarfod Microsoft Teams. Gellir eu cyflwyno hefyd mewn steil hunan-astudio, dysgu o bell ar ffurf e-fodiwl.

Bydd pob Cynghorydd yn cael manylion mewngofnodi ar gyfer offeryn dysgu ar-lein y Cyngor, iDev, yn y Digwyddiad Sefydlu Aelodau. Os oes angen i Gynghorydd gwblhau e-fodiwl (naill ai am y tro cyntaf neu fel cwrs gloywi), bydd y modiwl ar gael ar ei gyfrif iDev i'w gwblhau yn ei amser ei hun o fewn cyfnod penodol o amser.

Caiff unrhyw adnoddau a ddarperir yn ystod sesiynau datblygu naill ai eu lanlwytho i MemberNet neu eu storio ar gyfrif iDev y Cynghorydd yn dilyn y sesiwn er mwyn i'r Cynghorydd allu cael mynediad iddynt yn ei amser ei hun.

Bydd Cynghorwyr yn cael cynnig cyngor a/neu gymorth TGCh arbenigol yn ôl yr angen drwy eu cyfnod yn y swydd (gweler tudalen \*\*).

Bydd Cynghorwyr hefyd yn cael eu gwahodd i fynychu digwyddiadau arddangos hanfodol i Aelodau sy'n digwydd ddwywaith y flwyddyn. Mae arddangosiadau Aelodau yn gyfle gwych i Gynghorwyr rwydweithio â Chynghorwyr eraill a chael y wybodaeth ddiweddaraf gan brif swyddogion am faterion sy'n effeithio ar wasanaethau'r cyngor; mae'r ddau beth yma'n helpu Cynghorwyr i ddarparu cyngor a gwybodaeth gywir i'w hetholwyr ward.

“Bydd Cynghorwyr yn cael cynnig cyngor a/neu gymorth TGCh arbenigol yn ôl yr angen...”



## 4.22 Cyflogau

### Taliadau Cydnabyddiaeth i Aelodau. Llawlyfr Ymgeiswyr ac Aelodau Etholedig 2022

Mae holl Aelodau'r Cyngor yn cael cyflog sylfaenol. Mae hyn yn cwmpasu costau ffôn, TGCh a swyddfa'r holl Gynghorwyr ac mae'n cael ei adolygu'n flynyddol gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol.

Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol yn gyfrifol am bennu lefel y taliadau i aelodau etholedig cynghorau, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub yng Nghymru. Mae'r Panel yn llunio adroddiad blynyddol sy'n nodi:

*"Mae'r Panel wedi mynegi'n gyson na all cynnal gwerthoedd democrataidd llywodraethu lleol fod yn rhad ac am ddim. Mae aelodau awdurdodau lleol (gan gynnwys aelodau cyfetholedig a phenodedig) yno i gynrychioli buddiannau pobl leol, i lywodraethu cymunedau lleol, ac i sicrhau gwasanaethau cyhoeddus gwerth am arian priodol i drethdalwyr lleol drwy brosesau craffu effeithiol y maent yn atebol i'w cymuned amdanynt. Mae'r rhain yn dasgau sylweddol a phwysig i aelodau'r awdurdodau perthnasol o fewn cylch gwaith y Panel. Mae taliadau i aelodau ar gael i annog amrywiaeth o bobl barod a galluog i gyflawni llywodraethu lleol drwy eu rolau etholedig, penodedig neu gyfetholedig."*

Adroddiad Blynyddol Chwefror 2021

Pan gyhoeddir Adroddiad Blynyddol y Panel, rhaid i'r Cyngor gydymffurfio â'r gofynion statudol a chymhwyso'r holl benderfyniadau perthnasol. Rhaid i swyddog priodol y Cyngor roi mecanweithiau ar waith i bob cynghorydd cymwys gael taliadau fel y'u pennir gan y Panel.

Ni ellir amrywio lefelau'r taliadau y mae gan Gynghorwyr hawl iddynt drwy bleidlais gan y Cyngor Llawn.

Bydd cynghorwyr sydd ag uwch rôl hefyd yn cael cyflog uwch, a elwir hefyd yn Lwfans Cyfrifoldeb Arbennig (LCA), sy'n cynnwys y cyflog sylfaenol. Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol yn adolygu Uwch Gyflogau bob blwyddyn. Ni all unrhyw Gynghorydd gael mwy nag un Uwch Gyflog.

Telir yr holl gyflogau a lwfansau i Gynghorwyr (gweler tudalen 4.22/23) yn fisol drwy gredyd banc uniongyrchol ac maent yn ddarostyngedig i'r didyniadau Treth ac Yswiriant Gwladol priodol. Gofynnir i Gynghorwyr gyflwyno manylion banc yn y Digwyddiad Sefydlu Aelodau.

Caiff unrhyw Gynghorydd ddewis ildio unrhyw ran o'i hawl i gyflog drwy ysgrifennu at Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a fydd yn gwneud y trefniadau angenrheidiol.

Os caiff Cynghorydd ei atal dros dro neu ei atal yn rhannol o unrhyw gyfrifoldeb yn unol â Rhan III Deddf Llywodraeth Leol 2000 neu reoliadau a wneir dan y Rhan honno, bydd y rhan berthnasol o unrhyw gyflog sy'n daladwy dan Gynllun Lwfans Aelodau'r Cyngor mewn perthynas â'r cyfrifoldeb hwnnw yn cael ei hatal dros dro ac yn achos gorddaliad, ei thalu'n ôl i'r Cyngor.



## 4.22 Cyflogau (parhau)

### Taliadau Cydnabyddiaeth i Aelodau. Llawlyfr Ymgeiswyr ac Aelodau Etholedig 2022

Mae angen i'r Cyngor gytuno ar Ddatganiad Cydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau flynyddol, ei gyhoeddi a'i gynnal. Mae'r datganiad diweddaraf i'w weld drwy'r ddolen ganlynol:

[https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our\\_council/Council-Structure/member\\_re-muneration.aspx](https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our_council/Council-Structure/member_re-muneration.aspx)

Mae'r Datganiad Cydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau yn nodi manylion taliadau penodol y mae'n bwriadu eu cyflwyno i Aelodau Etholedig ac Aelodau Cyfetholedig yn unol â'r lefelau taliadau a lwfansau cydnabyddiaeth a benderfynir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol. Mae'n nodi sut y caiff Aelodau gydnabyddiaeth ariannol drwy dalu Cyflog Sylfaenol, Uwch Gyflog neu Gyflog Dinesig a fffioedd sy'n daladwy i Gynghorwyr ac Aelodau Cyfetholedig statudol. Mae'r Datganiad hefyd yn rhoi manylion y Lwfansau Gofal, Teithio a Chynhaliath sy'n gymwys.

Mae adran 26 Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi manylion Cynllun Cyflog Aelodau'r Cyngor:

[https://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/\\_Committee%20Reports/Committee%20Information/Constitution/May-2021/Section-26.pdf](https://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/_Committee%20Reports/Committee%20Information/Constitution/May-2021/Section-26.pdf)





## 4.23 Lwfansau

Taliadau Cydnabyddiaeth i Aelodau. Llawlyfr Ymgeiswyr ac Aelodau Etholedig 2022

Gall cynghorwyr hawlio Lwfansau Teithio a/neu Gynhaliaeth pan fyddant yn ysgwyddo costau wrth gyflawni dyletswyddau cymeradwy fel Aelod o'r Cyngor.

Cyhoeddir yr holl hawliadau a wneir bob blwyddyn, ar gyfer y flwyddyn ddinesig flaenorol, ar wefan y Cyngor.

O ran Teithio, gofynnir i Gynghorwyr fod yn ymwybodol o ddewis y dulliau teithio mwyaf cost-effeithiol ac ecogyfeillgar ac fe'u hanogir i deithio gyda Chynghorwyr eraill. Ar gyfer teithio mewn car, beic modur, neu feic pedal, mae'r cyfraddau cenedlaethol (hawliadau milltired) ar gyfer milltired yn cael eu pennu gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol bob blwyddyn.

Mae lwfansau cynhaliaeth yn daladwy pan fydd Cynghorydd yn cyflawni dyletswyddau y tu allan i ardal Bro Morgannwg a phennir y cyfraddau hefyd gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol bob blwyddyn. Cynghorir cynghorwyr i ymgynghori â'r Gwasanaethau Democrataidd/Swyddfa'r Cabinet i fanteisio ar drefniadau archebu canolog wrth drefnu llety dros nos y mae'n rhaid i'r Prif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor ei gymeradwyo ymlaen llaw drwy gyflwyno'r ffurflen briodol.

Rhaid i bob hawliad gyd-fynd â derbynebaw perthnasol ar gyfer yr holl wariant gwirioneddol a ysgwyddir a'u cyflwyno i'r Swyddog perthnasol o fewn naw deg diwrnod. I Aelodau Cabinet y swyddog perthnasol i'r yw Swyddog y Cabinet. I'r Aelodau eraill, y swyddog perthnasol yw unrhyw Aelod o'r Tîm Gwasanaethau Democrataidd.

Mae'r union gyfraddau wedi'u nodi ar y Ffurflen Hawlio Teithio a Chynhaliaeth ar Hafan MemberNet yn ogystal â'r Rhestr Taliadau Cydnabyddiaeth Aelodau ddiweddaraf ar wefan y Cyngor.

Os caiff Cynghorydd ei atal dros dro neu ei atal yn rhannol o unrhyw gyfrifoldeb yn unol â Rhan III Deddf Llywodraeth Leol 2000 neu reoliadau a wneir dan y Rhan honno, bydd y rhan berthnasol o unrhyw lwfans sy'n daladwy dan Gynllun Lwfans Aelodau'r Cyngor mewn perthynas â'r cyfrifoldeb hwnnw yn cael ei hatal dros dro ac yn achos gordaliad, yn cael ei thalu'n ôl i'r Cyngor.

Gall Aelodau Cyfetholedig hefyd hawlio lwfans. Aelod Cyfetholedig yw rhywun a benodir i bwyllgor neu is-bwyllgor ac sydd â hawliau pleidleisio ond nad yw'n Aelod Etholedig. Caiff y taliadau eu capio i ddeg diwrnod llawn y flwyddyn (h.y. 20 hanner diwrnod) ar gyfer pob pwyllgor y caiff ei gyfethol iddo ac fe'u gwneir yn fisol drwy gredyd banc uniongyrchol. Caiff unrhyw Aelod Cyfetholedig ddewis hepgor unrhyw ran o'i hawl i gael lwfans neu ffi ac ni fydd ganddo hawl i hawlio os caiff ei atal dros dro neu ei atal yn rhannol o unrhyw gyfrifoldeb.

Mae adran 26 Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi manylion Cynllun Lwfans Aelodau'r Cyngor:

[https://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/\\_Committee%20Reports/Committee%20Information/Constitution/May-2021/Section-26.pdf](https://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/_Committee%20Reports/Committee%20Information/Constitution/May-2021/Section-26.pdf)

“...gofynnir i Gynghorwyr fod yn ymwybodol o ddewis y dulliau teithio mwyaf cost-effeithiol ac ecogyfeillgar ...”

## 4.24 Ad-dalu Costau Gofal

### Taliadau Cydnabyddiaeth i Aelodau. Llawlyfr Ymgeiswyr ac Aelodau Etholedig 2022

Os oes angen i Gyngorydd drefnu gofal ar gyfer plentyn neu oedolyn dibynnol fel y gall gyflawni ei ddyletswyddau swyddogol a chymeradwy fel Cyngorydd, gellir ei ad-dalu am gost y gofal hwnnw.

Mae taliad cost gofal yn berthnasol i ofal a ddarperir gan ofalwyr anffurfiol neu ffurfiol ar gyfer y canlynol:

- (a) plant dibynnol hyd at 15 oed; neu
- (b) plant dros 15 oed ac oedolion ar yr amod y gall y Cyngorydd ddangos bod angen goruchwyliaeth ar yr unigolyn dibynnol.

Ni wneir taliadau:

- i fwy nag un Cyngorydd neu Aelod Cyfetholedig mewn perthynas â gofal yr un plentyn neu ddibynnydd ar gyfer yr un cyfnod o ofal; neu
- i rywun sy'n rhan o aelwyd Aelod.

Dylid gwneud pob cais am Ad-daliad Costau Gofal yn ysgrifenedig i'r Pennaeth Gwasanaethau Democraidd, gan nodi amseroedd, dyddiadau a rhesymau dros hawlio drwy gwblhau'r 'Ffurflen Hawlio Ad-daliad Costau Gofal' a 'Ffurflen Derbynebaw Costau Gofal' sydd ar gael ar MemberNet. Rhaid dangos derbynebaw gan y gofalwr ar gyfer trefniadau gofal ffurfiol ac anffurfiol.

### Absenoldeb Teuluol

Mae gan gynghorwyr hawl i gyfnod o absenoldeb teuluol, ac os ydynt yn bodloni'r amodau rhagnodedig, mae ganddynt hawl i fod yn absennol o gyfarfodydd y Cyngor.

Yn ystod cyfnodau o absenoldeb teulu, mae gan Gynghorwyr hawl i barhau i dderbyn Cyflog Sylfaenol waeth beth oedd eu cofnod presenoldeb yn ystod y cyfnod yn syth cyn yr absenoldeb teulu.

Bydd deiliad swydd â chyflog uwch yn gallu parhau i dderbyn ei uwch gyflog drwy gydol yr absenoldeb. Os yw'r Cyngor yn cytuno ei bod hi'n angenrheidiol penodi rhywun i gyflenwi yn ystod cyfnod absenoldeb teulu deiliad swydd â Chyflog Uwch, bydd y Cyngorydd sy'n cyflenwi'n gymwys am Gyflog Uwch.

Pan mae'r Cyngor yn cytuno i dalu am gyflenwi yn ystod absenoldeb am resymau teuluol, bydd yn rhoi gwybod i'r Panel Annibynnol ar Gydabyddiaeth Ariannol 14 diwrnod wedi dyddiad penderfynu ar y manylion, yn cynnwys enw'r swydd benodol a chyfnod y cyflenwi.



## 5.25 Cardiau Adnabod a Mynediad

### Adnoddau. Llawlyfr Ymgeiswyr ac Aelodau Etholedig 2022

Bydd pob Cynghorydd yn derbyn cerdyn adnabod ffotograffig a chortyn corfforaethol yn ystod Digwyddiad Sefydlu'r Aelodau.

Ar gyfer Cyngorwyr newydd, bydd y llun ar y cerdyn yn cael ei dynnu yn ystod y digwyddiad ei hun. Ar gyfer Cyngorwyr sy'n dychwelyd, gallant ddewis defnyddio ffotograff blaenorol neu dynnu un newydd.

Mae'r cerdyn yn gerdyn rheoli mynediad ar gyfer adeiladau'r Cyngor yn ogystal â'r gwahanol beiriannau argraffu (gweler tudalen 5.29) sydd wedi'u lleoli o amgylch yr adeiladau.

Rhaid i gynghorwyr beidio, o dan unrhyw amgylchiadau, roi benthyc eu Cerdyn Adnabod i unrhyw berson arall.

Mae'n bwysig, er diogelwch pawb, fod Cyngorwyr:

- yn arddangos eu bathodyn adnabod eu hunain wrth gyrraedd a symud o fewn adeiladau'r Cyngor,
- yn peidio â gadael i unrhyw un fynd i mewn i adeilad neu rannau diogel o'r adeilad gyda nhw oni bai bod gan yr unigolyn gerdyn adnabod y Cyngor hefyd,
- os ydynt yn gweithio ar eu pennau eu hunain yn yr adeilad ar ôl oriau swyddfa, yn rhoi gwybod i'r swyddog diogelwch adeiladau drwy brif ddesg y dderbynfa,
- os ydynt yn gweld rhywun nad ydynt yn ei adnabod mewn man diogel, peidio â mynd atynt, a rhoi gwybod yn lle i'r swyddog diogelwch adeiladu drwy brif ddesg y dderbynfa.

Rhaid i gynghorwyr roi gwybod os yw eu cerdyn adnabod wedi'i gollu, ei ddifrodi neu ei ddwyn, o fewn 24 awr i sylweddoli hynny, fel y gellir rhoi un newydd, drwy gysylltu â'r Gwasanaethau Democraidd.

Gofynnir i bob Cynghorydd gwblhau Arolwg Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn ystod y Digwyddiad Sefydlu Aelodau. Bydd hyn yn galluogi'r Tîm Gwasanaethau Democraidd i nodi unrhyw anghenion mynediad neu symudedd a allai fod gan Gyngorwyr a chynnig cymorth a chyngor priodol.



## 5.26 Teithio i Safle Cyngor

### Adnoddau. Llawlyfr Ymgeiswyr ac Aelodau Etholedig 2022

Ar 29 Gorffennaf 2019 cytunodd y Cyngor i ymuno â Llywodraeth Cymru a Chynghorau eraill ledled y DU i ddatgan 'argyfwng hinsawdd' byd-eang ac ar 26 Gorffennaf 2021 datganwyd Argyfwng Natur. Gwnaed y datganiadau mewn ymateb i ganfyddiadau adroddiad y Panel Rhynglywodraethol ar Newid yn yr Hinsawdd (IPCC) ac adroddiad y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol (NBN) i gydnabod y cysylltiad anorfod rhwng newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth.

**Prosiect Sero** yw ymateb y cyngor i'r argyfwng hwn o ran y newid yn yr hinsawdd. Maen nodi ymrwymiad y Cyngor i leihau ei allyriadau carbon i sero net erbyn 2030, ond mae uchelgais Prosiect Sero yn ehangach na lleihau allyriadau carbon y Cyngor yn unig. Mae'n cydnabod rôl y Cyngor fel arweinydd cymunedol a sut y gall weithio gydag eraill, eu cefnogi a'u dylanwadu drwy ei bolisiau a'i gamau gweithredu i wneud newidiadau ac ystyried eu heffaith ar yr amgylchedd.

Mae'r Cynllun Her Prosiect Sero yn manylu ar ddeunaw her sy'n seiliedig ar yr angen i'r Cyngor ddangos arweinyddiaeth gref, cyflawni ei gyfrifoldeb i genedlaethau'r presennol a chenedlaethau'r dyfodol a gwneud gwahaniaeth i'r amgylchedd yn awr. Mae rhagor o fanylion ar gael ar wefan y Cyngor:

<https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/Climate-Change/Project-Zero.aspx>

### Cerdded, Beicio a Thrafnidiaeth Gyhoeddus

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn gweithio i hyrwyddo a gwella cyfleoedd ar gyfer teithio llesol yn ardal yr awdurdod lleol ac mae rhagor o wybodaeth fel Mapiau Teithio Llesol ar gael i Aelodau'r Cyhoedd a Chynghorwyr ar wefan y Cyngor:

<https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/transportation/Active-Travel.aspx>

Mae'r Cyngor hefyd yn gweithredu Cynllun Beicio i'r Gwaith sy'n caniatáu i Gynghorwyr wneud arbedion ar gost beic ac ategolion newydd i gadw'n heini, lleihau straen, lleihau gwariant ar deithio, arbed amser teithio a lleihau allyriadau carbon. Bydd rhagor o wybodaeth am y cynllun yn cael ei rhoi i Gynghorwyr ar ddechrau eu tymor yn y swydd.

Gall y cynllunwyr teithiau canlynol hefyd gynorthwyo Cynghorwyr gyda'u trefniadau teithio:



TRAFNIDIAETH CYMRU  
TRANSPORT FOR WALES

<https://trc.cymru/cynllunio-taith>



Cardiff bus  
bws Caerdydd

<https://www.cardiffbus.com/plan-a-journey>





## 5.26 Teithio i Safle Cyngor (parhau)

Adnoddau. Llawlyfr Ymgeiswyr ac Aelodau Etholedig 2022

### Parcio Ceir

Mae Parcio Ceir am ddim ar hyn o bryd ac mae ar gael ym mhob un o dri adeilad swyddfa mwyaf y Cyngor i Gynghorwyr fynychu cyfarfodydd (os ydynt yn dewis mynychu cyfarfod wyneb yn wyneb):

Dim ond Adeilad y Swyddfa Ddinesig yn y Barri sydd â 10 lle parcio dynodedig i Gynghorwyr, fodd bynnag, mae'r rhain ar sail y cyntaf i'r felin.

Mae'r holl Feysydd Parcio hefyd yn cael eu defnyddio gan Staff y Cyngor, felly gall parcio gymryd mwy o amser yn ystod oriau gwaith na gyda'r nos ac ar benwythnosau.

### Gwybodaeth Ddefnyddiol am Deithio

Swyddfeydd Dinesig	Swyddfeydd y Dociau	Yr Alpau
Heol Holton Y Barri CF63 4RU	Subway Road Y Barry CF634RT	Alps Quarry Road Gwenfô CF5 6AA
<b>Oriau Agor:</b>	<b>Oriau Agor:</b>	<b>Oriau Agor:</b>
Dydd Llun – dydd Gwener:	Dydd Llun – dydd Gwener:	Dydd Llun – dydd Gwener:
Penwythnosau:	Penwythnosau:	Penwythnosau:
<b>Llwybrau Bws Caerdydd:</b>	<b>Llwybrau Bws Caerdydd:</b>	<b>Llwybrau Bws Caerdydd:</b>
93, 94, 95, 96A, 97A, 100 neu 304.	88.	96, 96A
<b>Yr Orsaf Drenau Agosaf:</b>	<b>Yr Orsaf Drenau Agosaf:</b>	<b>Yr Orsaf Drenau Agosaf:</b>
Dociau'r Barri (BRD)	Dociau'r Barri (BRD)	Ddim ar gael ar y trêrn.
<b>Cyfleusterau eraill:</b>	<b>Cyfleusterau eraill:</b>	<b>Cyfleusterau eraill:</b>
<ul style="list-style-type: none"><li>● Storio Beiciau</li><li>● Cawodydd</li><li>● manau parcio aml-feddiannaeth</li></ul>		

## 5.27 Ystafelloedd Grwpiau Gwleidyddol

Adnoddau. Llawlyfr Ymgeiswyr ac Aelodau Etholedig 2022

Mae gan bob Grŵp Gwleidyddol ystafell gyfarfod ddynodedig ar lawr gwaelod isaf adeilad y Swyddfa Ddinesig.

Mae mynediad i'r ystafelloedd hyn drwy fynedfa gefn yr adeilad gan ddefnyddio Cerdyn Adnabod a Mynediad (gweler tudalen 5.25).

Mae croeso i gynghorwyr ddefnyddio'r ystafelloedd hyn pryd bynnag y bydd Adeilad y Swyddfa Ddinesig ar agor ac maen nhw'n fannau defnyddiol ar gyfer gweithio rhwng apwyntiadau.

Mae cyflenwad o De, Coffi a Diodydd Meddal hefyd ar gael ger ystafelloedd y grwpiau ar gyfer Cynghorwyr.



“...ar agor ac maen nhw'n fannau defnyddiol ar gyfer gweithio rhwng apwyntiadau.”

## 5.28 Offer y Cyngor

### Adnoddau. Llawlyfr Ymgeiswyr ac Aelodau Etholedig 2022

Mae'r Cyngor yn darparu offer priodol a weithredir gan Microsoft Office 365 i Gynghorwyr er mwyn eu helpu i ymgymryd â'u rolau a'u cyfrifoldebau amrywiol:

- **Cyfrifiadur y Cyngor** – Gliniadur cludadwy yw hwn a all gysylltu â rhwydwaith Bro Morgannwg o gartref yn ogystal ag yn adeiladau'r Cyngor.
- **Ffôn Symudol y Cyngor** – Ar gyfer gwneud galwadau, anfon negeseuon testun, a derbyn E-byst wrth fynd. Efallai y bydd cynghorwyr hefyd yn dewis cael mynediad i'w negeseuon e-bost Bro Morgannwg ar eu dyfais symudol bersonol os byddai'n well ganddynt weithredu un ffôn symudol yn unig a gwrthod dyfais symudol Bro Morgannwg.
- **Clustffonau Cyfarfod o Bell** – Clustffonau a meicroffon i gefnogi cynghorwyr i glywed a chael eu clywed yn glir yn ystod cyfarfodydd o bell.

Bydd offer yn cael ei roi i Gynghorwyr fel rhan o'r Digwyddiad Sefydlu Aelodau.

Gellir rhoi dyfeisiau eraill i Gynghorwyr, yn seiliedig ar eu hanghenion cymorth unigol, fel y nodwyd o'u hymateb i Arolwg Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yr Aelodau wedi'i gwblhau ar ddechrau'r tymor.

Mae unrhyw ddyfeisiau a osodir yn parhau i fod yn eiddo i'r Cyngor a gofynnir i Gynghorwyr ddychwelyd yr offer ar ddiwedd eu tymor yn y swydd ar ôl derbyn cyfrifoldeb am y dyfeisiau ar ddechrau eu tymor yn y swydd.

Ni ddylid defnyddio offer a gwasanaethau'r Cyngor at ddefnydd personol nac unrhyw weithgaredd nad yw wedi'i awdurdodi fel rhan o ddisgrifiad swydd cynghorydd. Rhaid i gynghorwyr beidio â thynnu gwybodaeth y Cyngor o'r rhwydwaith a'i chopio i offer personol neu offer nad yw'n eiddo i'r Cyngor gan fod hyn yn cyflwyno risg ddifrifol o golli gwybodaeth a chamweddau i'r Cyngor.

Er mwyn cael mynediad i rwydwaith Bro Morgannwg o gartref, bydd angen cysylltiad WiFi band eang cartref ar Gynghorwyr. Mae'n ofynnol i gynghorwyr drefnu a phrynu eu gwasanaeth band eang eu hunain yn annibynnol, gan ddefnyddio darparwr o'u dewis, ac fe'u cynghorir i ddod o hyd i wasanaeth band eang cyflym iawn.

Bydd yn ofynnol i bob Cynghorydd ymrwymo'n ysgrifenedig y bydd yn arsylwi ac yn cydymffurfio â'r gweithdrefnau a'r protocolau a bennir gan y Cyngor sy'n llywodraethu'r defnydd o'i offer; y Cod Ymddygiad TGCh. Bydd Cynghorwyr yn cael copi o'r Cod ar ddechrau eu tymor yn y swydd.

Mae Strategaeth Ddigidol y Cyngor i alluogi cyfleoedd i wella drwy ddefnyddio TGCh yn arloesol, nawr ac yn y dyfodol, yn ogystal â nodi gweledigaeth y Cyngor ar sut y bydd yn ysgogi technolegau newydd i barhau i ddarparu gwasanaethau blaenoriaeth o ansawdd uchel ar gael ar wefan y Cyngor.

[https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our\\_council/achieving\\_our\\_vision/Achieving-our-Vision.aspx](https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our_council/achieving_our_vision/Achieving-our-Vision.aspx)

Gelwir gwasanaeth cymorth technegol y Cyngor yn Ddesg Gymorth TGCh a bydd pob Cynghorydd yn cael manylion cyswllt y gwasanaeth hwn fel rhan o'r Digwyddiad Sefydlu Aelodau.

Ar gyfer trafodaethau/cyfarfodydd anffurfiol, bydd Cynghorwyr yn defnyddio Microsoft Teams ac ar gyfer cyfarfodydd ffurfiol bydd ganddynt fynediad i Ateb Cyfarfod Hybrid y Cyngor; CIVICO. Darperir hyfforddiant ar y ddau blatfform hyn i Gynghorwyr ar ddechrau eu tymor yn y swydd a bydd cymorth parhaus ar gael ar gais drwy'r Tîm Gwasanaethau Democraidd.



## 5.29 Argraffu Cyffredinol

### Adnoddau. Llawlyfr Ymgeiswyr ac Aelodau Etholedig 2022

Yn 2018, diwygiodd y Cyngor ei strategaeth argraffu i leihau gwastraff argraffu a chostau dilynol. Arweiniodd hyn at roi argraffwyr cyffredinol mewn ardaloedd cymunedol ar draws y sefydliad a'i adeiladau swyddfa. Roedd y cam hwn hefyd yn cyd-fynd â chynllun her newid yn yr hinsawdd y Cyngor a lansiodd yn 2021, 'Prosiect Sero,' i addasu i effaith newid yn yr hinsawdd a'i lliniaru.

Mae'r Cyngor yn cydnabod efallai na fydd Cynghorwyr yn gallu gweithio'n gwbl 'ddi-bapur' fodd bynnag, mae'n annog unigolion i weithio'n 'ddi-bapur' lle bo hynny'n bosibl.

Felly, caiff pob Cynghorydd ei ethol yn awtomatig i dderbyn papurau cyfarfod yn electronig, yn hytrach nag ar ffurf copi caled, ond gallant ddewis cael copïau caled wedi'u hanfon atynt yn y post neu eu dosbarthu i'w cloerau dynodedig os oes angen.

Mae holl liniaduron y Cynghorwyr wedi'u gosod i'r argraffwyr cyffredinol. Mae hyn yn golygu y bydd yr holl ddogfennau a anfonir i'w hargraffu yn cael eu cadw ar gyfrif argraffu'r Cynghorydd am 48 awr nes iddynt gyrraedd unrhyw argraffydd yn yr adeilad i argraffu'r ddogfen.



"...annog unigolion i weithio'n 'ddi-bapur' lle bo hynny'n bosibl."

## 5.30 Gohebiaeth

Adnoddau. Llawlyfr Ymgeiswyr ac Aelodau Etholedig 2022

### Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR)

Newidiodd y gyfraith ar Ddiogelu Data ar 25 Mai 2018. Mae Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) y DU yn gyfraith newydd ledled Ewrop a ddisodlodd Ddeddf Diogelu Data 1998 y DU (DDD 1998).

Mae GDPR y DU yn nodi'r gofynion o ran sut y bydd angen i sefydliadau ymdrin â data personol. Mae wedi cynyddu hawliau pobl y cedwir eu data (a elwir yn wrthrychau data yn y Ddeddf Diogelu Data) ac yn rhoi mwy o reolaeth iddynt dros yr hyn sy'n digwydd i'w data. Mae hefyd yn caniatáu i gosbau ariannol gael eu gosod ar unrhyw sefydliad sy'n torri'r hawliau hynny neu nad yw'n cydymffurfio â'r 'egwyddor atebolrwydd' – sy'n golygu yn y bôn bod angen i reolwyr data a phroseswyr data h.y. y Cyngor a'i Gynghorwyr roi mesurau technegol a sefydliadol ar waith i ddiogelu'r data sydd ganddynt rhag colled, mynediad heb awdurdod ac ati ac i sicrhau bod hawliau gwrthrychau data yn cael eu diogelu.

Rhaid i bob Cynghorydd gael ei gofrestru fel Rheolwr Data gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a thalu ffi. Bydd y Cyngor yn talu am y ffi a bydd ffurflenni cofrestru yn cael eu cwblhau yn fuan ar ôl yr etholiad.

Bydd Cynghorwyr yn:

- (1) Defnyddio data personol a ddarperir gan y cyngor yn yr un modd ag y byddai swyddogion y cyngor yn defnyddio data. Bydd swyddogion y Cyngor a'i gyflenwyr yn ddarostyngedig i reolaethau GDPR y DU.
- (2) Defnyddio deunydd gwaith achos personol yn ei fraint ei hun pan fyddant yn casglu neu'n cael data personol drwy gyfathrebu â'u preswylwyr.
- (3) Cael mynediad at, casglu a defnyddio data personol drwy eu hymgyrchu a'u actifadaeth wleidyddol – gyda neu heb ddefnyddio asiantau gwleidyddol neu bleidiau gwleidyddol os ydynt yn cynrychioli un.

Felly, fel Rheolwyr Data, rhaid i Gynghorwyr gydymffurfio â gofynion newydd GDPR y DU fel a ganlyn:

- Cadw cofnod o'u gweithgareddau prosesu, er mwyn dangos eu bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.
- Rhoi Hysbysiad Preifatrwydd manylach pan fyddant yn casglu data personol.
- Sôn wrth wrthrychau data am eu hawliau.
- Bod â mesurau diogelwch priodol ar waith i ddiogelu data personol sydd ganddynt.
- Adolygu a dileu 'hen' ddata nad oes ei angen arnynt mwyach; a
- Rhoi gwybod am unrhyw achosion o dorri'r ddeddfwriaeth i'r Comisiynydd Gwybodaeth o fewn 72 awr.

Dim ond i ymateb i ymholiadau preswylwyr y dylai cynghorwyr ddefnyddio eu cyfeiriad e-bost Bro Morgannwg swyddogol . Bydd gan bob Cynghorydd lofnod e-bost corfforaethol sy'n cynnwys hyperdolen at Hysbysiad Preifatrwydd y Cyngor:

[https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our\\_council/Website-privacy-notice.aspx](https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our_council/Website-privacy-notice.aspx)

Os oes gan Gynghorwyr unrhyw ymholiadau neu os oes angen cyngor arnynt ynglŷn â GDPR y DU yna gallant e-bostio: [DPO@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:DPO@valeofglamorgan.gov.uk)



## 5.30 Gohebiaeth (parhau)

Adnoddau. Llawlyfr Ymgeiswyr ac Aelodau Etholedig 2022

### Gwasanaethau Post

Yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Adran 43), mae gan y Cyngor ddyletswydd i gyhoeddi cyfeiriadau swyddogol ar gyfer pob Aelod Etholedig, yn rhai electronig a phost. Gall Aelodau nad ydynt yn dymuno gwneud eu cyfeiriad cartref yn gyhoeddus (ar yr amod eu bod yn bodloni gofynion Cod Ymddygiad yr Aelodau) ddefnyddio cyfeiriad Cyngor Bro Morgannwg.

### Safonau'r Gymraeg

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth rhagorol i siaradwyr Cymraeg.

Yn y2015, cafodd Hysbysiad Cydymffurfio cyfreithiol gan Gomisiynydd y Gymraeg yn nodi pa Safonau sy'n berthnasol i'r Cyngor.

Er mwyn cyflawni'r 174 o safonau o fewn yr hysbysiad, datblygodd y Cyngor Gynllun Gweithredu cynhwysfawr sydd wedi ei gyhoeddi ar ei wefan:

[https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our\\_council/equalities/Welsh-Language-Standards.aspx](https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our_council/equalities/Welsh-Language-Standards.aspx)



## 5.31 MemberNet

### Adnoddau. Llawlyfr Ymgeiswyr ac Aelodau Etholedig 2022

Mae gan y Cyngor ei fewnrwyd ei hun o'r enw StaffNet a dyma'r hafan chwilio awtomatig ar gyfrifiaduron Cynghorwyr.

Felly, mae angen ei fod wedi ei gysylltu â system Bro Morgannwg drwy gysylltiad â'r rhyngwyd i'w ddefnyddio.



O Hafan StaffNet, gall Cynghorwyr gael gafael ar y dogfennau a manylion cyswllt y Swyddogion y Cyngor, y bydd eu hangen arnynt i weithredu fel Cynghorydd.

Mae adran o StaffNet wedi'i theilwra'n benodol tuag at Gynghorwyr ac fe'i gelwir yn MemberNet. Mae tudalen mewnwyd MemberNet yn cynnwys gwybodaeth, dogfennau a chanllawiau pwysig i Gynghorwyr gyfeirio atynt pan fo'n gyfleus iddynt a chaiff ei ddiweddarau'n rheolaidd. Felly, mae'n ofynnol i Gynghorwyr ymweld â MemberNet yn rheolaidd.



## 5.32 Canllawiau Bwrdd Gwaith 'Sut i'

Adnoddau. Llawlyfr Ymgeiswyr ac Aelodau Etholedig 2022

Bydd gan bob Cyngorydd ffolder dogfennau 'Canllawiau Sut i' ar fwrdd gwaith eu cyfrifiadur Bro Morgannwg:



Mae'r ffolder hon yn cynnwys canllawiau, cyfarwyddiadau a dogfennau polisi i gefnogi Cynghorwyr i fynd i'r afael ag unrhyw faterion technegol a allai fod ganddynt pan fo'r Ddesg Gwasanaeth TGCh ar gau.

Gan fod y ffolder ar y bwrdd gwaith, gall Cynghorwyr gael mynediad i'r ffolder a'i defnyddio wrth weithio all-lein.





## 5.33 Hyb y Pwyllgorau

Adnoddau. Llawlyfr Ymgeiswyr ac Aelodau Etholedig 2022

Mae Hyb y Pwyllgorau yn ffolder storio electronig ar gyfer pob agenda cyfarfod sydd wedi eu cyhoeddi.

Mae llwybr byr i'r Hyb ar gael ar fwrdd gwaith Cyngorwyr, ar ddyfeisiau Bro Morgannwg yn unig, ac fe'i diweddarir ar ôl i agendâu gael eu cyhoeddi:



Gall cyngorwyr gael mynediad at agendâu mewn sawl ffordd:

- (1) Drwy'r hyperddolen sydd wedi'i chynnwys yn yr e-bost hysbysu a gânt bob tro y cyhoeddir agenda.
- (2) Drwy glicio ar enw'r Pwyllgor perthnasol yn Hyb y Pwyllgorau ar eu bwrdd gwaith.
- (3) Drwy ymweld â thudalen gwe Cofnodion, Agendâu ac Adroddiadau'r Cyngor; neu
- (3) Drwy dderbyn copi caled o'r papurau yn y post (os gofynnir amdanynt ymlaen llaw).

Mae rhai Pwyllgorau wedi'u cloi i rai unigolion oherwydd natur gyfrinachol y gwaith papur ac felly dim ond aelodau'r Pwyllgor penodol hwnnw fydd â mynediad i weld y papurau Rhan II perthnasol drwy'r Hyb.

Caiff unrhyw Gynghorydd ofyn am fynediad i wybodaeth Rhan II, os nad oes ganddynt fynediad iddi eisoes, drwy godi cais ffurfiol gyda'r Gwasanaethau Democrataidd. Yna, rhaid asesu'r ceisiadau hyn ar sail 'angen gwybod' oherwydd natur gyfrinachol y wybodaeth.

Nid oes gan aelodau o'r cyhoedd hawl i weld gwybodaeth Rhan II. Felly, Hyb y Pwyllgorau yw'r unig ffordd i Gynghorwyr weld gwybodaeth Rhan II ar wahân i gopi caled.

Gall cyngorwyr hefyd lawrlwytho'r agenda o Hwb y Pwyllgorau i'w gliwiadur Bro Morgannwg. Gall hyn fod yn ddefnyddiol os ydynt am anodi'r ddogfen cyn cyfarfod yn seiliedig ar eu barn/sylwadau eu hunain i godi a/neu weithio all-lein yn ystod y cyfarfod ei hun.



## 5.34 Cyfeiriadur Swyddogion

### Adnoddau. Llawlyfr Ymgeiswyr ac Aelodau Etholedig 2022

Mae Cyfeiriadur Swyddogion ar gael i Gynghorwyr drwy MemberNet a'r Ffolder Canllawiau Sut i ar eu bwrdd gwaith.

Bydd cynghorwyr hefyd yn cael cyfle i gwrdd â Swyddogion allweddol fel rhan o'r Digwyddiad Sefydlu Aelodau i'w cyflwyno eu hunain yn ffurfiol, creu llinellau cyfathrebu a sefydlu perthynas waith dda.

Mae'r Cyfeiriadur yn helpu Cynghorwyr i gysylltu â'r Swyddog 'llawr gwlad' cywir ynghylch eu hymholiad boed ar eu rhan ei hunain neu'n rhan o waith achos eu ward.

Gall cynghorwyr hefyd ddefnyddio dulliau corfforaethol y Cyngor o godi ymholiadau gyda Swyddogion fel sydd ar gael i Aelodau'r cyhoedd, megis:

Tudalen gwe **Rhoi gwybod** ar wefan y Cyngor sy'n caniatáu i unigolion adrodd am amrywiaeth eang o faterion:

[https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/do\\_it\\_online/Report.aspx](https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/do_it_online/Report.aspx)

Tudalen gwe **Cysylltu â Ni** ar wefan y Cyngor sy'n darparu'r wybodaeth gyswllt ar gyfer Canolfan Alwadau Cyswllt Un Fro (C1V) y Cyngor a chyfarwyddiadau i swyddfeydd y cyngor i godi mater yn bersonol yn y dderbynfa:

[https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our\\_council/Contact-Us.aspx](https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our_council/Contact-Us.aspx)



## Canllaw i Gynghorwyr 5.35 ar Iechyd a Diogelwch a Lles Personol

Adnoddau. Llawlyfr Ymgeiswyr ac Aelodau Etholedig 2022

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn rhoi'r pwys mwyaf ar iechyd, diogelwch a lles ei gynghorwyr, gweithwyr a'r rheiny y mae'n darparu gwasanaeth iddynt.

Mae gan gynghorwyr gyfrifoldeb i ddilyn y trefniadau iechyd a diogelwch fel y nodir ym Mholisi Iechyd, Diogelwch a Lles y Cyngor ac i adrodd am unrhyw faterion a fyddai'n peryglu cynnal diwylliant iechyd a diogelwch cadarnhaol ledled y sefydliad.

Mae'r Datganiad Polisi, yn ogystal â'i weithdrefnau polisi amrywiol, ar gael i Gynghorwyr drwy adran Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol StaffNet ac anogir Cynghorwyr i roi sylw i hyn ym mhob agwedd ar eu gwaith Cyngor.

### Diogelwch Corfforol

Rhan bwysig o waith cynghorwyr yw cadw mewn cysylltiad â'u trigolion a'u cymunedau. Mae hyn yn cynnwys helpu unigolion ag unrhyw broblemau a allai fod ganddynt. Yn aml, mae hyn yn ymestyn y tu hwnt i ddarpariaeth gwasanaethau'r cyngor yn unig. Mae'r cysylltiadau hyn fel arfer yn rhoi boddhad ac nid ydynt yn cynnwys gwrthdaro. Fodd bynnag, gall cynghorwyr eu canfod eu hunain mewn sefyllfaoedd lle mae angen iddynt reoli trigolion dig a rhwystredig sy'n aml yn cysylltu â'u cynrychiolwyr etholedig pan fyddant yn teimlo nad oes ganddynt unrhyw lwybr arall i'w ddilyn. Yn aml bydd cynghorwyr yn delio ag etholwyr wyneb yn wyneb pan fyddant ar eu pennau eu hunain.

Ni fydd y rhan fwyaf o gynghorwyr yn cael unrhyw broblemau yn ystod eu tymor/tymhorau yn y swydd, ond gall neilltuo ychydig o amser i baratoi a chynllunio leihau unrhyw risg.

Anogir cynghorwyr i:

- asesu'r risgiau i'w person wrth gyflawni eu dyletswyddau cyhoeddus,
- adnabod perygl posibl o gyswllt personol neu gyfathrebu ar y rhyngwyd / drwy'r post a chymryd camau priodol, a
- bod yn rhagweithiol wrth ystyried diogelwch personol drwy, er enghraifft, brynu larwm personol, sicrhau bod gan eich partner, ffrind neu berthynas wybodaeth am eich gweithgareddau, a sicrhau bod eich ffôn symudol wedi ei wefru.

Mae'r Gymdeithas Llywodraeth Leol (LGA) mewn partneriaeth â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) wedi cynhyrchu Canllaw i Gynghorwyr wrth ymdrin â bygythiadau, gyda'r nod o egluro pa fesurau diogelwch personol y gallai Cynghorydd eu cymryd i atal a delio â'r amgylchiadau prin hynny pan allent eu canfod eu hunain mewn sefyllfaoedd lle maent yn pryderu am eu diogelwch.

Nid yw'r canllaw wedi'i gynllunio i ddychryn, ond i awgrymu rhai camau y gall Cynghorydd a'u Cyngor eu rhoi ar waith i'w diogelu fel person mewn sefyllfa gyhoeddus, a sut i ymateb pe bai digwyddiad yn digwydd.



## Canllaw i Gynghorwyr 5.35 ar Iechyd a Diogelwch a Lles Personol (continued)

Adnoddau. Llawlyfr Ymgeiswyr ac Aelodau Etholedig 2022

### Diogelwch Ar-lein

Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn newid y ffordd mae cymdeithas yn cyfathrebu, y ffordd y mae'n derbyn newyddion ac, yn gynyddol, y ffordd y mae'n meddwl amdani ei hun ac eraill.

Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn trawsnewid gwleidyddiaeth hefyd; mae'n gwneud gwleidyddion a sefydliadau cyhoeddus yn fwy hygyrch, yn caniatáu i unigolion roi llais i'w barn a helpu i rannu syniadau neu hyrwyddo ymgyrchoedd, i filiynau o bosibl, ar unwaith. Mae'n arf pwerus sy'n gallu gwneud llawer o les ond, yn y dwylo anghywir, gall achosi niwed hefyd. Mae twf cam-drin neu drolio ar-lein yn bryder, fel y mae'r dystiolaeth gynyddol y gall sefydliadau neu hyd yn oed asiantaethau tramor fanteisio ar y cyfryngau cymdeithasol neu ddefnyddio 'newyddion ffug' i ddylanwadu ar farn y cyhoedd neu hyd yn oed effeithio ar gystadlaethau democrataidd.

Felly, mae'r cyfryngau cymdeithasol wedi dod yn arf hanfodol i gynghorau a chynghorwyr hysbysu ac ymgysylltu â'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Mae llawer o gynghorwyr eisoes yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ac mae llawer mwy yn ystyried eu defnyddio. Felly, mae'r Cyngor yn cynnig Sesiwn Datblygu Aelodau o'r enw 'Diogelwch a Hunanofal' sy'n cynnwys diogelwch ar-lein.

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) hefyd yn cynnig arweiniad i gynghorwyr sy'n newydd i'r cyfryngau cymdeithasol a rhai awgrymiadau i'r rhai sydd eisoes yn eu defnyddio. Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn esblygu'n gyflym, felly mae'r canllawiau'n cynnig trosolwg cyffredinol, ambell awgrym ac egwyddor allweddol a chyfeiriadau at adnoddau cam wrth gam ar-lein:

<https://www.wlga.wales/SharedFiles/Download.aspx?pageid=62&mid=665&fileid=345>

### Lles Personol

Gall cynghorwyr ddefnyddio'r Rhaglen Cymorth Cyflogeion 'Care First' sy'n cynnig Cwnsela, Gwybodaeth a Chyngor drwy dri gwasanaeth gwahanol:

- Gwasanaeth Cwnsela Ar-lein a Dros y Ffôn 24/7.
- 'Zest,' Rhaglen sy'n dysgu defnyddwyr i ymdopi â sefyllfaoedd a alla godi mewn bywyd; a
- 'Lifestyle,' adnodd ar-lein sy'n cynnig cyngor, gwybodaeth, gweminarau ac erthyglau ar iechyd, ffitrwydd, cyllid, gofal plant a hawliau defnyddwyr.

Bydd gan gynghorwyr hefyd fynediad i Borthol E-Ddysgu'r Cyngor o'r enw 'iDev' a'r amrywiaeth o gyrsiau a seminarau lles a gynigir am ddim drwy'r porthol.



"Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn trawsnewid gwleidyddiaeth hefyd..."

## 5.36 Rhestr Termau

Llawlyfr Ymgeiswyr ac Aelodau Etholedig 2022

<b>Agenda</b>	Rhestr o faterion naill ai ar ffurf electronig neu gopi caled i'w trafod mewn cyfarfod.
<b>Anodi</b>	I ychwanegu esboniad byr neu farn i destun neu luniad.
<b>Cadeirydd / Is-gadeirydd</b>	Y disgrifiad rôl niwtral o ran y rhywiau ar gyfer y person â chyfrifoldeb dros y cyfarfod.
<b>Etholwyr</b>	Person sy'n gallu pleidleisio mewn ardal benodol o'r wlad.
<b>Cyfansoddiad</b>	Y set o egwyddorion gwleidyddol a ddefnyddir i lywodraethu talaith neu sefydliad, yn arbennig mewn perthynas â hawliau 'r bobl y mae'n eu llywodraethu.
<b>Democrataidd</b>	Democrataidd yw ansoddair Democratiaeth: y gred yn y rhyddid a'r cydraddoldeb rhwng pobl, neu system lywodraeth sy'n seiliedig ar y gred hon, lle mae pŵer naill ai'n cael ei gynnal gan gynrychiolwyr etholedig neu'n uniongyrchol gan y bobl eu hunain.
<b>Cyfrifiadur</b>	Golwg ar sgrin cyfrifiadur sy'n cynnwys eiconau (= symbolau bach neu ddarluniau) sy'n cynrychioli ffeiliau, rhaglenni, a nodweddion eraill o'r cyfrifiadur.
<b>Adran Etholiadol/Ward</b>	Un o ardaloedd ardal gyffredinol Cyngor (Bro Morgannwg), sydd â'i chynrychiolydd/wyr gwleidyddol etholedig ei hun ar gyfer pob ward at ddibenion etholiad.
<b>Etholaeth</b>	Yr holl bobl sy'n cael pleidleisio.
<b>Blaenraglen Waith</b>	Dogfen atodlen sy'n nodi'r materion y bydd y Pwyllgor yn eu hystyried yn y dyfodol a phryd.
<b>Llywodraethiant</b>	Y ffordd y mae sefydliadau neu wledydd yn cael eu rheoli ar y lefel uchaf, a'r systemau ar gyfer gwneud hyn.
<b>Mewnrwyd</b>	System o gyfrifiaduron cysylltiedig sy'n gweithio fel y rhyngwrwyd ac sy'n caniatáu i bobl o fewn sefydliad gyfathrebu â'i gilydd a rhannu gwybodaeth.
<b>Llywodraeth Leol</b>	Rheolaeth a threfniant trefi ac ardaloedd bach, a'r gwasanaethau maen nhw'n eu darparu, gan bobl sy'n cael eu hethol gan y rhai sy'n byw yn yr ardal.
<b>MemberNet</b>	Adran adnoddau Cyngorwyr ar Fewnrwyd y Cyngor.
<b>Cynnig</b>	Awgrym ffurfiol sy'n cael ei wneud, ei drafoda'i bleidleisio mewn cyfarfod.
<b>Blwyddyn y Cyngor</b>	Mae'r flwyddyn ddinesig yn gyfnod a ddefnyddir gan lywodraeth leol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r flwyddyn ddinesig fel arfer yn dechrau ym mis Mai ac yn dod i ben ddiwedd mis Ebrill bob blwyddyn.
<b>All-lein</b>	(Cyfrifiadur) ddim wedi'i gysylltu i neu'n cael ei reoli'n uniongyrchol gan system ganolog, neu ddim wedi'i gysylltu i'r rhyngwrwyd.
<b>Rhan II</b>	Mae gwybodaeth "Rhan Dau" yn wybodaeth gyfrinachol neu eithriedig nad yw ar gael i aelodau'r cyhoedd.
<b>Swyddog Priodol</b>	Swyddog a ddynodwyd i gyflawni swyddogaeth benodol a ddarperir o fewn Cyfansoddiad y Cyngor. Oni nodir yn wahanol, y "Swyddog Priodol" yw'r Prif Weithredwr.
<b>Craffu</b>	Archwiliad gofalus a manwl o rywbeth er mwyn cael gwybodaeth amdano.
<b>Archebion Sefydlog</b>	Rheolau sy'n dweud sut y dylai sefydliad drefnu ei gyfarfodydd ffurfiol (Cyngor/ pwyllgor).
<b>Gwŷs</b>	Anfonir papurau'r Agenda at y Cynghorydd drwy wahoddiad yn gofyn iddo fynychu'r cyfarfod.
<b>Y Weithrediaeth "Y Cabinet"</b>	Mae'r Cabinet yn cynnwys Arweinydd y Cyngor a hyd at 9 cynghorydd arall o'r grŵp/-grwpiau gwleidyddol sy'n rheoli, ac mae'n defnyddio ei Bwerau Gweithredol i wneud y rhan fwyaf o benderfyniadau'r Cyngor ar wasanaethau, swyddogaethau a rheoli corfforaethol, gan gynnwys cynlluniau a strategaethau

# Project Brief

## Aim:

To produce a Corporate Candidate & Elected Member's Handbook that is relevant, up-to-date, easy to read and useful to Election Candidates, Newly Elected Members and Returning Members that collates the already existing electronic and paper resources available in time for the Local Government Elections in May 2022.

## Reasoning:

Members require corporate support in line with the requirements of the Local Government (Wales) Measure 2011.

It is recognised that the majority of information shared with Elected Members is also relevant and of interest to Election Candidates.

Information that is easily available and understandable is beneficial to both Returning and Newly Elected Members, on a day-to-day basis, to support them to fulfil their role.

Accurate and comprehensive information provides the reader with a realistic idea of the Elected Member role and the support processes in place for Elected Members to meet their responsibilities.

## Link to the Wales Audit Office Review Action Plan:

**Proposal for Improvement 1: Skills and Development** - The Council should further consider the skills and training that Scrutiny Members may need to better prepare them for current and future challenges and develop and deliver an appropriate training programme.

**Action Point 3** - Informed by the Member Development Review process, undertake a Training Needs Analysis for Members to inform the Council's Organisational Development requirements to support Members in the aspects of the Member Competency Framework and to include specific scrutiny elements relating to:

- Questioning skills;
- Chairing skills;
- Scrutiny of budgets;
- Business case scrutiny (to include options appraisal, financial analysis, commercial arrangements for instance);
- **Tools and mechanisms available to Members to fulfil their roles** (i.e. the call-in process and requests for consideration etc.);
- Public Engagement in scrutiny and decision making.

## Resources

Local Government & Elections (Wales) Act 2021

Vale of Glamorgan Constitution

Vale of Glamorgan Public Website

Vale of Glamorgan StaffNet (MemberNet)

Vale of Glamorgan Cabinet and Scrutiny Roles & Responsibilities Protocol

Vale of Glamorgan 2017 Member Development Training Material

Vale of Glamorgan Member Schedule of Remuneration

Vale of Glamorgan ICT Code of Conduct

Vale of Glamorgan GDPR Privacy Notice

Vale of Glamorgan Care First Services

IRPW: February 2021 Annual Report

WLGA Council: Diversity in Democracy 2021 Report

WLGA Social Media A Guide for Councillors

Democratic & Scrutiny Services Officer Knowledge / Discussions with Members

## Assessment Questions:

1. Is this the right section of the Handbook to mention this? Would the information sit better somewhere else?
2. Is there too much information for the reader? Does the reader need to know that at this point in time? 'Keep It Simple Stupid' (K.I.S.S).
3. Is the language used plain and understandable? (Glossary).

## Project Timeline

*\*Subject to change following consideration by the Monitoring Officer, Democratic Services Committee and Cabinet.\**

- **By 28<sup>th</sup> June '21:**
  - 1) Finish writing content, consult with DSSOs and tweak draft content as appropriate.
  - 2) Present Draft content to Monitoring Officer, possible presentation to Senior Leadership Team.
  - 3) Produce as Appendix for Democratic Services Committee report (agenda send-out Monday 5<sup>th</sup> July).
- **12<sup>th</sup> July '21** – Present draft (word document) version of Handbook to the Democratic Services Committee for Elected Member input/endorsement.
- **July/August '21** - Tweak draft content as per Member Comments and further Officer consultation. Send finalised English content for Welsh Translation. Send both English and Welsh content for Graphics.
- **August/Sept '21** – Present graphic version to Cabinet for approval.
- **Dec '21** – Consult with the Electoral Registration Department on how the Handbook may be included within Election Candidate Packs taking in to account key candidate nomination dates as set by the Electoral Commission. Consideration given to reduce printing costs!
- **Mar '22:**
  - Handbook provided (ideally electronically) to potential Candidates attending the 'Becoming a Councillor' Open Day Events.
  - Handbook is emailed to all confirmed Election Candidates and provided as hard copy on request. Small supply print exercise undertaken – probably external supplier to ensure quality.
- **May '22** – Election and subsequent Member Induction & Development Programme for Councillors begins:
  1. Handbook re-sent via email to all Elected Members as part of Member Induction Event;
  2. Handbook uploaded to MemberNet;
  3. Handbook uploaded to Offline 'How To' Folder available on Member Desktops;
  4. Handbook uploaded to Public Website.
  5. Handbook uploaded to Member Committee Hub